# Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint
# Adolygiad Lladdiad Trais Domestig

## Adroddiad Trosolwg

## Marwolaeth Lucy

## 27 mlwydd oed

## Bu farw: AWST 2021

**Cwblhawyd yr adroddiad ar 11.07.2023**

**Awdur a Chadeirydd Annibynnol y Panel  Theresa Breen MA**

Cynnwys


| Adran | Teitl | Rhif tudalen |
|---|---|---|
| | Tudalen Gynnwys | 2 |
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Llinellau Amser | 3 |
| 3 | Cyfrinachedd | 4 |
| 4 | Cylch Gorchwyl | 5 |
| 5 | Methodoleg | 6 |
| 6 | Cynnwys Teulu, Ffrindiau, Cydweithwyr a’r Gymuned Ehangach | 9 |
| 7 | Cyfranwyr i’r Adolygiad | 15 |
| 8 | Aelodau’r Panel Adolygu | 16 |
| 9 | Awdur a Chadeirydd yr Adroddiad Trosolwg | 17 |
| 10 | Adolygiadau Cyfochrog | 18 |
| 11 | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 19 |
| 12 | Rhannu’r Adroddiad | 22 |
| 13 | Cefndir, Trosolwg a Chronoleg | 22 |
| 14 | Dadansoddi | 26 |
| 15 | Casgliadau | 34 |
| 16 | Gwersi a Ddysgwyd | 37 |
| 17 | Argymhellion | 40 |

## Adran 1 - Cyflwyniad

1.1 Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i farwolaeth Lucy[1] ym mis Awst 2021. Roedd Lucy yn fam ifanc i bedwar o blant oedd yn byw mewn tref fechan y tu allan i Gaer.

1.2 Cafodd ei chyn bartner, David, ei arestio a'i gyhuddo o'i llofruddiaeth a'i dynladdiad. Pllediodd yn euog o'i dynladdiad, gan wadu llofruddio Lucy ym mis Tachwedd 2021. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2022, fe'i cafwyd yn euog o lofruddiaeth, a chafodd ei ddedfrydu i garchar am oes a'i orfodi i dreulio o leiaf 25 mlynedd dan glo.

1.3 Rhoddodd Heddlu Gogledd Cymru wybod i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint am amgylchiadau marwolaeth Lucy. Yna, comisiynwyd yr Adolygiad Lladdiad Domestig[2] (ALlD) gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint ar 10.09.2021, ond cafwyd rhywfaint o oedi cyn gallu cychwyn ar yr adolygiad yn sgil y gwrandawiadau pledio a chyfarwyddiadau a phroses y treial.

1.4 Un o egwyddorion gweithredu'r adolygiad hwn oedd gadael i drugaredd ac empathi ein harwain, gyda 'llais' Lucy wrth wraidd y broses. Dylai unrhyw adolygiad geisio disgrifio'r bywyd drwy lygaid y dioddefwr. Ar gychwyn yr adroddiad hwn, hoffai'r Panel Adolygu gydymdeimlo â theulu Lucy, yn enwedig ei phedwar o blant, a'i ffrindiau yn eu colled. Mae hefyd yn cydnabod y gofid a achoswyd i deulu'r cyflawnwr, yn enwedig y rhai a oedd yn adnabod Lucy. Roedd hon yn drychineb frawychus ac erchyll i'r teulu, a drwy'r Cadeirydd, mae'r Panel yn anfon eu cydymdeimlad didwyll atynt yn dilyn eu colled.

## Adran 2 - Llinellau Amser

2.1 Yn unol â phrotocol lleol, yn dilyn marwolaeth Lucy, rhoddodd Heddlu Gogledd Cymru wybod i PDC Sir y Fflint am amgylchiadau marwolaeth Lucy ar 10.09.2021, gan egluro bod yr achos yn cael ei archwilio gan yr heddlu fel achos o lofruddiaeth.

2.2 Mae Uned Diogelwch Cymunedol (UDC) Sir y Fflint yn gweithredu fel cyswllt ar gyfer y PDC, a bu iddynt roi gwybod i'r Swyddfa Gartref am y penderfyniad, er bod dyddiad y cyfathrebu hwn yn aneglur. Comisiynwyd yr ALlD ar 10.09.2021, pan benodwyd yr Awdur a'r Cadeirydd annibynnol.

2.3 Ar wahân i gyfarfodydd cyflwyno (19.10.2021 a 07.12.2021), i gytuno ar gynllun adolygu, ni wnaed unrhyw gynnydd o ran trefnu cyfarfod cychwynnol y panel. Cytunwyd y byddai'r panel yn cychwyn cyfarfod ar ôl y treial (a drefnwyd ar gyfer 21.03.2022). Cychwynnodd y Cadeirydd ar ymarfer cwmpasu safonol a chafwyd ymatebion gan asiantaethau.

---

[1]Ffugenw: enw dychmygol, yn enwedig un a ddefnyddir gan awdur. Yn yr achos hwn, enw a ddefnyddir i sicrhau bod y bobl y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn anhysbys. Y Cadeirydd ddewisodd y ffugenw hwn.

[2]Mae adolygiad lladdiad domestig (ALlD) yn golygu adolygiad o'r amgylchiadau lle mae **marwolaeth unigolyn 16 oed neu hŷn wedi**, neu'n ymddangos ei fod wedi, **digwydd oherwydd trais, camdriniaeth neu esgeulustod** gan – **unigolyn** yr oedd ef/hi yn perthyn iddynt neu **yr oedd ef/hi mewn, neu wedi bod mewn, perthynas bersonol agos â nhw,** neu aelod o'r un aelwyd â nhw, a gynhelir gyda'r bwriad o nodi'r gwersi i'w dysgu yn sgil y farwolaeth (Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004).

2.4 Cynhaliwyd pump cyfarfod panel, gydag unrhyw gyfathrebu ychwanegol yn digwydd drwy gyfarfodydd Teams, e-bost a dros y ffôn.

2.4 Daeth yr adolygiad i ben ar 11.07.2023 a chymeradwywyd yr adroddiad gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar 18.08.2023.

**Adran 3 - Cyfrinachedd**

3.1 Yn ystod cyfarfod y panel, nodwyd bod yr **Holl** wybodaeth a drafodir yn ystod cyfarfodydd Paneli Adolygu Lladdiad Domestig yn gwbl gyfrinachol, gan gynnwys unrhyw gronolegau a/neu Adolygiadau Rheoli Unigol (ARhU), ac ni cheir eu datgelu i unrhyw un arall heb drafod a chytuno ar hynny gyda'r PDC a/neu Gadeirydd y ALID. Byddai datgelu gwybodaeth y tu allan i'r cyfarfodydd hyn, y tu hwnt i'r hyn y cytunir arno, yn torri cyfrinachedd yr unigolyn dan sylw a chyfrinachedd yr asiantaethau cysylltiedig. Gofynnwyd i bob asiantaeth gadw at eu gweithdrefnau Diogelu Data eu hunain, sy'n cynnwys diogelwch data electronig. Gosodwyd cyfrineiriau i warchod yr holl ddogfennau a gyflwynwyd o'r cychwyn cyntaf, a dim ond i'r unigolion a oedd yn rhan uniongyrchol o broses y Panel y rhoddwyd y cyfrineiriau hynny.

3.2 Mabwysiadwyd Cynllun Marcio Amddiffynnol y Llywodraeth (GPMS) drwy gydol y broses, gan roi dosbarthiad 'Swyddogol - Sensitif' ar ddeunyddiau a rannwyd. Defnyddiwyd rhwydweithiau diogel i drosglwyddo dogfennau, ac os nad oedd hyn yn bosib, roedd eu gwarchod â chyfrinair yn ychwanegu lefel briodol o ddiogelwch i'r dogfennau a rannwyd.

3.3 Er mwyn ei gwneud yn haws cyfeirio atynt, bydd pob term y gellir defnyddio acronym ar eu cyfer yn ymddangos yn llawn unwaith, a hefyd yn y rhestr termau ar ddiwedd yr adroddiad. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn gyfrinachol. Dim ond i'r swyddogion/gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r adolygiad, eu rheolwyr atebol a'r asiantaethau hynny sy'n comisiynu'r gweithwyr proffesiynol y mae'r wybodaeth ar gael.

**Anhysbysrwydd a Ffugenwau**

3.4 Defnyddio ffugenwau yw'r arfer safonol i warchod hunaniaeth a pheidio â datgelu pwy yw'r unigolion, teuluoedd a phawb arall y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. Y Cadeirydd ddewisodd y ffugenwau ar gyfer Lucy, ei gŵr a phob unigolyn perthnasol arall y cyfeirir atynt yn yr adolygiad hwn, gan gynnwys ffrindiau/cydweithwyr, gan roi ystyriaeth briodol i ddiwylliant. Mae pob tyst y cyfeirir atynt yn yr adolygiad hwn yn gyfranogwyr cydsyniol yn ôl natur yr adroddiadau heddlu y maent wedi'u llofnodi, a rennir er diben statudol.

**Tabl 1**.

| **Ffugenwau** | **Perthynas â Lucy** | Wedi rhoi Cyfweliad (Cyf) neu Ddatganiad (MG11) i'r Heddlu a/neu Gyfweliad i TB |
|---|---|---|
| Lucy | Amherthnasol | Amherthnasol |
| David | Cyn bartner / cyflawnwr | Cyfweliad(au) i'r Heddlu - Do |
| Plentyn 1 | Plentyn hynaf | Naddo |
| Plentyn 2 | Ail blentyn | Naddo |

| | | |
|---|---|---|
| Plentyn 3 | Trydydd plentyn | Cyf i'r Heddlu - Do |
| Plentyn 4 | Pedwerydd plentyn | Cyf i'r Heddlu - Do |
| Mike | Cefnder 1af | MG11 i'r Heddlu - Do |
| Mary | Ffrind gorau, yn briod â Mike | MG11 i'r Heddlu - Do |
| Leah | Ffrind hirdymor benywaidd | MG11 i'r Heddlu - Do |
| Alex | Ffrind newydd gwrywaidd | MG11 i'r Heddlu - Do |
| John | Tad yng nghyfraith | MG11 i'r Heddlu - Do |
| Liz | Modryb | MG11 i'r Heddlu - Naddo |

**Adran 4 - Cylch Gorchwyl (CG)**

4.1.1 Pwrpas yr ALID yw:

- Canfod pa wersi y gellir eu dysgu o'r farwolaeth gysylltiedig â Cham-drin Domestig (CD) o ran y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio'n unigol ac yn cydweithio i ddiogelu dioddefwyr.
- Nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny o fewn a rhwng asiantaethau, sut y bwriedir gweithredu arnynt ac o fewn pa derfynau amser, a beth y mae disgwyl ei weld yn newid o ganlyniad.
- Rhoi'r gwersi hynny ar waith yn ymatebion y gwasanaethau, gan gynnwys gwneud newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau lleol a chenedlaethol fel y bo'n briodol.
- Atal cam-drin a lladdiadau domestig a gwella ymateb gwasanaethau i bob dioddefwr trais a cham-drin domestig a'u plant, drwy ddatblygu dull gweithredu amlasiantaeth wedi'i gydlynu er mwyn sicrhau y gellir adnabod CD ac ymateb iddo'n effeithiol ar y cyfle cyntaf posib.
- Cyfrannu at well dealltwriaeth o natur trais a cham-drin domestig ac amlygu arferion da.

(Canllawiau Statudol Amlasiantaeth ar gyfer cynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig 2016, adran 2, paragraff 7)

4.1.2 Trafododd y panel y CG yng nghyfarfod cyntaf y panel, a gyfrannodd at y cronolegau. Gan mai bwriad yr ALID yw canfod gwersi i'w dysgu, nid yw'n fodd o roi bai. Y nod gyffredinol yw canfod ffyrdd o wella diogelwch unigolion sy'n profi trais, esgeulustod a CD, ym mhob ffurf, drwy lywio arferion ac ymddygiad yn y dyfodol a sefydlu pa wersi y gellir eu dysgu o'r ffordd y bu i weithwyr proffesiynol a sefydliadau weithio'n unigol ac ar y cyd i ddiogelu'r unigolion sy'n destun yr adolygiad.

4.1.3 Mae'r Cylch Gorchwyl (CG) penodol a'r egwyddorion a oedd yn sail ac yn arweiniad i'r adolygiad i'w gweld fel atodiad i'r ddogfen hon.

### 4.2 Llinell amser yr adolygiad

4.2.1 Ystyriodd yr ALID yr ymyriadau a'r cysylltiadau rhwng asiantaethau a Lucy a David, testunau'r adolygiad, yn ystod y cyfnod rhwng **26.08.2011** (cychwyn eu perthynas) hyd at ddyddiad y digwyddiad pan fu farw Lucy, sef **26.08.2021**. Os byddai unrhyw faterion eraill perthnasol (cysylltiedig â CD) a ddigwyddodd y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw yn dod i'r amlwg wrth gynnal yr ymholiadau, pwysleisiwyd y dylid cynnwys y rhain.

### 4.3 Termau Penodol i'r Achos

**Ddioddefwr:** Roedd Lucy yn ferch 27 mlwydd oed adeg ei marwolaeth, ac yn fam i bedwar o blant. Roedd yn wyn Ewropeaidd o ran ethnigrwydd.

**Gŵr:** Roedd David yn ddyn 29 mlwydd oed adeg marwolaeth Lucy. Roedd yn wyn Ewropeaidd o ran ethnigrwydd.

### 4.4 Termau penodol: Prif Drywydd Ymholi

4.4.1 Bu i'r Panel Adolygu a'r Cadeirydd ystyried y 'materion generig' a nodwyd yn y canllawiau statudol, a gofynnwyd iddynt archwilio'r materion canlynol penodol i'r achos, heb unrhyw fwriad i weld bai.

- **A oedd aelodau'r teulu, ffrindiau neu gydweithwyr yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad camdriniol gan y cyflawnwr honedig tuag at y dioddefwr, cyn y lladdiad, ac a rannwyd hyn gyda gweithwyr proffesiynol.**
- **A oedd unrhyw un wedi dioddef yn flaenorol oherwydd David.**
- **A oedd yna unrhyw faterion diogelu mewn perthynas â'r plant.**

## Adran 5 - Methodoleg

5.1 Yn dilyn marwolaeth Lucy, anfonodd Heddlu Gogledd Cymru hysbysiad ffurfiol i PDC Sir y Fflint a chychwynnwyd ar y broses adolygu dan Ganllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, ac fel y soniwyd yn flaenorol, penodwyd y Cadeirydd/Awdur i gynnal adolygiad i holl amgylchiadau'r achos cyn marwolaeth Lucy. Bodlonodd yr achos hwn y meini prawf a nodir dan adran 9 (1) y Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr (2004), sy'n nodi'r canlynol:

Mae adolygiad lladdiad domestig (ALID) yn golygu adolygiad o'r amgylchiadau lle mae **marwolaeth unigolyn 16 oed neu hŷn wedi**, neu'n ymddangos fel pe bai wedi, **digwydd o ganlyniad i drais, camdriniaeth neu esgeulustod** gan –

> (a) **unigolyn** roedden nhw'n perthyn iddynt neu **roedden nhw mewn, neu wedi bod mewn, perthynas bersonol agos gyda nhw**, neu
>
> (b) aelod o'r un aelwyd â nhw eu hunain, a gynhelir gyda'r bwriad o nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth.

5.2 Ar gyfer ALID, mae angen dod â chynrychiolwyr o amrediad o asiantaethau statudol a sector gwirfoddol ynghyd, gan gynnwys asiantaethau gwasanaethau CD arbenigol lleol, i rannu gwybodaeth ac archwilio beth, os unrhyw beth, a oedd yn hysbys am y dioddefwr a'i phrofiadau.

5.3 Mae'r dyddiadau canlynol yn dangos pryd y cymerwyd camau neu y cynhaliwyd cyfarfodydd yn ystod yr adolygiad hwn.

- 19.10.2021: Cyfarfod cyflwyno cychwynnol gyda'r PDC i gytuno ar aelodau arfaethedig y Panel.
- 07.12.2021: Cyfarfod arall gyda'r PDC.
- 21.03.2021: Dyddiad treial y cyflawnwr.
- 11.04.2022: Cyfarfod gyda'r PDC i drefnu cyfarfod y panel.
- 20.05.2022: Cyfarfod arall gyda'r PDC.
- 26.05.2022: Cyfarfod cychwynnol y Panel lle rhannwyd y Cylch Gorchwyl er sylwadau a chymeradwyaeth ac y gofynnwyd am gronolegau.
- 28.07.2022: Ail gyfarfod y panel, a ohiriwyd oherwydd llawdriniaeth frys (Cadeirydd).
- 12.10.2022: Ail gyfarfod y panel (i drafod cronolegau a chytuno ar ARhU).
- 07.12.2022: Trydydd cyfarfod y panel (a chychwyn yr adroddiad drafft).
- 10.05.2023: Cyflwyno a rhannu'r adroddiad drafft a chynnal pedwerydd cyfarfod y panel.
- 07.05.2023: Pumed cyfarfod - Cyfarfod olaf y panel lle rhannwyd yr adroddiad Terfynol er sylwadau/cymeradwyaeth cyn ei anfon i'r PDC ar 11.07.2023.
- 18.08.2023: Y PDC yn cymeradwyo'r adroddiad.

5.4 Yn ystod yr adolygiad hwn, cafwyd cymysgedd o ARhU a gwybodaeth gryno gan asiantaethau, ac fe'u casglwyd ynghyd gan gynrychiolydd asiantaeth a oedd yn annibynnol ar reolwyr atebol yr achos. Caiff naratif neu grynodeb ei gwblhau gan asiantaeth yn hytrach nag ARhU pan benderfynir gan banel yr ALID ar y cyd na chafwyd digon o gysylltiad â'r dioddefwr. Fodd bynnag, mewn achosion lle nad yw'r panel yn credu bod angen ARhU llawn, efallai fod gan yr asiantaeth wybodaeth berthnasol i'r Adolygiad o hyd. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y panel, a cheisiwyd sylwadau gan bob asiantaeth drwy gylch adborth i'r Cadeirydd er mwyn llywio dadansoddiad a llunio drafft cyntaf yr adroddiad trosolwg.

5.5 Ym mis Mawrth 2013, cyflwynodd y Llywodraeth ddiffiniad trawslywodraethol o drais a cham-drin domestig, a ddyluniwyd i sicrhau bod gwahanol asiantaethau yn defnyddio dull cyffredin o fynd i'r afael â thrais a cham-drin domestig. Mae'r diffiniad newydd yn nodi mai dyma yw trais a cham-drin domestig:

"Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n amlygu ymddygiad **rheolaethol**, **gorfodaethol** neu **fygythiol**, **trais** neu **gamdriniaeth** rhwng unigolion sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid personol agos neu sy'n aelodau teulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r mathau canlynol o gam-drin: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol, emosiynol.

Mae ymddygiad rheolaethol yn amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud i unigolyn fod yn ddarostyngedig a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu oddi wrth ffynonellau cefnogaeth, drwy gamfanteisio ar ei adnoddau a'i alluoedd er mantais bersonol, drwy ei amddifadu o'r adnoddau y mae eu hangen i fod yn annibynnol, i wrthwynebu'r ymosodwr ac i ddianc, a drwy reoli ei ymddygiad o ddydd i ddydd.

Mae ymddygiad gorfodaethol yn weithred barhaus neu'n batrwm o weithredoedd sy'n cynnwys ymosod, bygwth, cywilyddio a brawychu neu fathau eraill o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu godi ofn ar eu dioddefwr".

Talwyd sylw manwl i'r diffiniad trawslywodraethol o drais a cham-drin domestig uchod, ac fe'i cynhwyswyd yn y Cylch Gorchwyl (CG).

5.6 Defnyddiwyd y gwefannau, polisïau a mentrau canlynol hefyd fel dogfennau cyfeirio ar gyfer yr adolygiad hwn.

- Strategaeth Llywodraeth EF i Roi Terfyn ar Drais yn Erbyn Merched a Genethod 2016-2020
- Canllawiau Statudol Amlasiantaeth ar gyfer Cynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Rhagfyr 2016
- Adolygiadau Lladdiadau Domestig: Canfyddiadau Allweddol o ddadansoddiad o adolygiadau lladdiadau domestig a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Rhagfyr 2016
- Gwefan Cyngor Sir y Fflint

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Community-safety/Domestic-abuse---sources-of-help-W.pdf

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Community-Safety/Domestic-abuse-and-Sexual-Violence.aspx

https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Community-safety/Regional-North-Wales-Vulnerabilty-and-Exploitation-Strategy-Update.pdf

- Gwefan Heddlu Gogledd Cymru: Gall aelodau'r cyhoedd gael gafael ar bolisïau cam-drin domestig (penodol) Heddlu Gogledd Cymru ar eu gwefan:

https://www.northwales.police.uk/cy-GB/cyngor/cyngor-a-gwybodaeth/cam-drin-domestig/cam-drin-domestig/

Mae'r Heddlu'n cyhoeddi amrywiaeth o ganllawiau a chyngor i aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â cham-drin domestig, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan yr Heddlu:

https://www.northwales.police.uk/cy-GB/cyngor/cyngor-a-gwybodaeth/cam-drin-domestig/cam-drin-domestig/sefydliadau-cymorth/

https://www.northwales.police.uk/cy-GB/cyngor/cyngor-a-gwybodaeth/cam-drin-domestig/cam-drin-domestig/sut-i-riportio-cam-drin-domestig//

Mae'r safle hefyd yn cynnwys dolenni i amrywiaeth o bolisïau perthnasol ychwanegol, er enghraifft stelcio ac aflonyddu, yn:

https://www.northwales.police.uk/cy-GB/cyngor/cyngor-a-gwybodaeth/cam-drin-domestig/cam-drin-domestig/camdriniaeth-ddomestig-ddigidol/

**Data Troseddau Sir y Fflint**

**5.7** Mae dwy ardal Blismona yn Sir y Fflint, sef Gogledd Sir y Fflint, sy'n cynnwys yr ardal i'r De o'r A55, a De Sir y Fflint, sy'n cynnwys gweddill y sir. Ardal Blismona Gogledd Sir y Fflint sy'n ymdrin â'r ardal ble llofruddiwyd Lucy. Dyma ffigurau cyffredinol Sir y Fflint.

| | Flintshire North | | | Flintshire South | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fiscal Year | Crime | Non-Crime | Total DA Occurrences | Crime | Non-Crime | Total DA Occurrences |
| 2017/18 | 1145 | 838 | 1983 | 688 | 534 | 1222 |
| 2018/19 | 1403 | 623 | 2026 | 853 | 473 | 1326 |
| 2019/20 | 1334 | 680 | 2014 | 818 | 427 | 1245 |
| 2020/21 | 1528 | 538 | 2066 | 1028 | 397 | 1425 |
| 2021/22 | 1707 | 606 | 2313 | 1153 | 424 | 1577 |

Mae'r cyfnod y darparodd yr heddlu ddata ar ei gyfer yn cyd-daro â chyfnod lle gwelwyd gwelliant yng nghywirdeb data cofnodi troseddau, felly er y gwelir cynnydd, nid yw hynny'n golygu ei fod yn ganlyniad penodol i fwy o ddigwyddiadau cam-drin domestig.

Dyma'r data ar gyfer dioddefwyr y tramgwyddwyd yn eu herbyn mewn dau neu fwy o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn adrodd:

| Victims with 2+ Occs | Flintshire North | Flintshire South |
|---|---|---|
| 2017/18 | 352 | 190 |
| 2018/19 | 352 | 219 |
| 2019/20 | 365 | 215 |
| 2020/21 | 383 | 269 |
| 2021/22 | 447 | 291 |

Yn olaf, dyma ddigwyddiadau Hawl i Ofyn y Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS). Rydym wedi'u cynnwys gan fod y wybodaeth hon yn rhoi rhywfaint o gipolwg ar ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig yn gyffredinol, ond yn benodol ar ymwybyddiaeth o hawl pobl i holi am hanes o drais er dibenion cam-drin domestig.

| DVDS Occurrences | FN | FS | Total |
|---|---|---|---|
| 2017 | 8 | 10 | 18 |
| 2018 | 12 | 6 | 18 |
| 2019 | 14 | 13 | 27 |
| 2020 | 16 | 15 | 31 |
| 2021 | 32 | 27 | 59 |

**Adran 6. Cynnwys Teulu, Ffrindiau, Cydweithwyr a'r Gymuned Ehangach**

6.1.1 Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn nodi y dylid ceisio cynnwys aelodau'r teulu, cyflogwyr, ffrindiau, cydweithwyr a chymdogion os yw hynny'n bosib, er mwyn sicrhau y ceir dadansoddiad cadarn o'r amgylchiadau llawn mewn perthynas â'r digwyddiad sy'n cael ei adolygu a'r cyfnod perthnasol cyn hynny.

6.1.2 O ddyddiad y digwyddiad ymlaen, cymerwyd gofal mawr i beidio ag achosi mwy o drawma i'r teulu. Cafodd y Swyddog Cyswllt Teulu (SCT) y dasg gan y PDC o roi gwybod i'r teulu bod ALID am gael ei gynnal, a rhoi taflen *Advocacy After Fatal Domestic Abuse (AAFDA)* iddynt. Gwnaed hyn, gan gysylltu â mam a thad Lucy ar

wahân. Rhoddwyd manylion cyswllt e-bost y Cadeirydd (Awdur) i'r teulu, gan nodi yr hoffent gyfarfod â nhw pan oeddent yn barod i wneud hynny.

6.1.3 Hysbyswyd y panel bod y SCT wedi egluro mai ffocws y cyswllt teulu oedd gofalu am a chefnogi 4 plentyn ifanc y dioddefwr. Hefyd, rhoddwyd gwybod i dad Lucy am yr ALID gan y Gwasanaeth Cefnogi Dioddefwyr ar ran y Cadeirydd. Cadarnhaodd y Cadeirydd y 'penderfyniad i beidio cael cyswllt' yr oedd wedi'i nodi i'r Gwasanaeth Cefnogi Dioddefwyr gyda'r SCT.

6.1.4 Cyfathrebodd y SCT hefyd gyda mam a thad y dioddefwr, gan holi a hoffent gymryd rhan yn yr ALID. Anfonwyd llythyrau, ac anfonwyd a rhannwyd negeseuon e-bost gyda chwaer y dioddefwr, sef llefarydd dynodedig y teulu. Ni chafwyd atebion i'r negeseuon. Fodd bynnag, parhaodd y SCT i geisio sefydlu cyswllt (yn aflwyddiannus) ar ran y Cadeirydd, gan gynnwys danfon llythyr â llaw i fam, tad a chwaer Lucy.

6.1.5 Cyfarfu chwaer Lucy â'r SCT gan egluro bod effaith andwyol yr achos llys a'r brwydrau cyfreithiol parhaus, ochr yn ochr â gweithio'n llawn amser a gofalu am y plant, yn golygu nad oedd ganddynt unrhyw amser i gymryd rhan ym mhroses yr ALID. Mae hyn yn gwbl ddealladwy. Nododd y byddai'n cysylltu â'r Cadeirydd maes o law pan oedd yn teimlo y gallai wneud hynny, a dywedodd fod y teulu'n parhau i gael problemau. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad agored iddi ddod i gyfarfod a thrafod yr adolygiad hwn a'i ganfyddiadau unrhyw bryd. Y teulu ddewisodd y ffugenw, ond bu iddynt ddewis peidio â chymryd rhan yn y broses adolygu ffurfiol.

6.1.6 Roedd pob un o gyfarfodydd y panel yn cyfeirio'n benodol at y teulu a chafwyd y wybodaeth ddiweddaraf naill ai gan yr Heddlu neu gan gynrychiolwyr y Gwasanaeth Cefnogi Dioddefwyr.

6.1.7 Cysylltwyd â nifer o ffrindiau agos Lucy drwy gynrychiolydd yr Heddlu ar y panel, a chyfeirir at y rhain yn yr adroddiad hwn. Cysylltwyd â'r ffrindiau er mwyn cael darlun go iawn o Lucy a sut roedd yn ymwneud â'i ffrindiau a'i theulu. Cytunodd dau ffrind i siarad â'r Cadeirydd, a chytunwyd ar amseroedd a dyddiadau i wneud hyn gyda'r Cadeirydd. Pan wnaed y galwadau ar yr amseroedd y cytunwyd arnynt, gofynnwyd i'r Cadeirydd ffonio'n ôl ac yna ni atebwyd y galwadau na'r negeseuon testun, heb unrhyw eglurhad.

6.1.8 Trafodwyd y diffyg ymgysylltiad hwn gyda chynrychiolydd yr Heddlu ar y panel a'r Swyddog Cyswllt Teulu. Trafodwyd hyn ymhellach gydag aelodau'r panel. Ystyriwyd bod trawma'r teulu a'u hamharodrwydd amlwg i gymryd rhan yn dynodi y dylid parhau â'r adolygiad heb eu cyfraniadau personol, gan ddefnyddio eu datganiadau i'r heddlu fel cyfeirbwynt yn lle hynny.

**Gwybodaeth Gefndir**
**Lucy**

**6.2.1** Roedd Lucy'n perthyn i deulu gwyn Prydeinig ac fe'i ganwyd ym 1994. Roedd Lucy'n 27 mlwydd oed pan fu farw. Roedd ganddi 3 o frodyr a chwiorydd a bu'n byw gyda'i

rhieni nes iddi gael ei phlentyn cyntaf. Nid oedd yn gweithio'n llawn amser ond roedd ganddi swydd ran-amser yn y Co-op lleol.

**6.2.2** Pan fu farw Lucy, roedd hi'n byw'n annibynnol gyda'i phedwar o blant yn nhŷ ei mam. Roedd wedi gwahanu â David yn ddiweddar, ar ôl perthynas ysbeidiol a barodd ddeng mlynedd, ond roedd ef yn dal i ymweld â'r tŷ. Roeddent yn dal yn briod ac ef oedd tad pob un o'r plant.

**6.2.3** Yn amlwg, nid yw'n bosib cael syniad o'r berthynas o safbwynt Lucy, heb gael yr hanes domestig gan y bobl agosaf ati. Daw'r disgrifiad gan deulu a ffrindiau ac o'r datganiadau a roddwyd i'r Heddlu, a disgrifir David gan amryw fel bod yn 'rhyfedd ac yn rheolaethol' drwy gydol eu perthynas. Byddwn yn archwilio sylwadau penodol drwy ddatganiadau'r tystion unigol.

**6.2.4** Cafodd Lucy eu plentyn cyntaf yn 2011 pan oedd yn 16 oed. Ni ddatgelodd ei bod yn feichiog i David ar y pryd, gan ymdopi â'r beichiogrwydd ar ei phen ei hun gyda chefnogaeth ei theulu a'i ffrindiau. Roedd David mewn perthynas arall ar y pryd ac roedd ganddo blentyn gyda'i bartner. Ar ôl canfod bod ganddo blentyn gyda Lucy, dechreuodd David weld Lucy y tu ôl i gefn ei bartner, gan orffen y berthynas honno'n nes ymlaen i gael bod gyda Lucy yn barhaol. Daeth Lucy a David at ei gilydd a chael tri o blant eraill; bu iddynt briodi ym mis Mawrth 2019, ond gan wahanu sawl gwaith.

**6.2.5** Mae Leah, Alex, Mary a Mike i gyd yn disgrifio Lucy fel unigolyn hwyliog, llawn egni a gofalgar, a oedd yn siriol a llawn hwyl. Yn fam ymroddedig, awgrymwyd fod Lucy yn llawn bywyd ac yn mwynhau cymdeithasu.

**6.2.6** Er na wyddom am unrhyw ddigwyddiadau domestig y 'rhoddwyd gwybod i'r Heddlu' amdanynt gyda Lucy yn ddioddefwr (na'n droseddwr) yn ei pherthynas gyda David, mae ei ffrindiau'n disgrifio patrwm o ymddygiad camdriniol sy'n dangos cryn dipyn o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol tuag at Lucy. Byddwn yn archwilio hyn yn yr adran Ddadansoddi.

**David**

**6.2.7** Roedd David yn 29 mlwydd oed pan gyflawnwyd y drosedd. Bu'n byw â'r dioddefwr yn nhŷ ei mam tan yr wythnos flaenorol. Roedd ganddo swydd lawn amser, yn gweithio sifftiau 12 awr fel peiriannydd, gan gynnwys llawer o sifftiau nos.

**6.2.8** Nid oedd David yn hysbys i'r heddlu am unrhyw faterion domestig gyda Lucy nac unrhyw bartner arall. Gwnaed honiad o ymosodiad cyffredin yn erbyn David ym mis Rhagfyr 2020 yn dilyn ffrae ynglŷn â pharcio. Methodd y dioddefwr â phrofi hynny ac felly ni chofnodwyd euogfarn.

**6.2.9** Cyhuddwyd David o ymosodiad yn 2011, pan ddyrnodd ddioddefwr (gwahanol) ddwywaith gan dorri eu trwyn. Derbyniodd Orchymyn Cymunedol am hynny. Er nad yw'r un o'r digwyddiadau hyn yn dangos cofnod troseddol maith, maent yn dangos ei dueddiad i fod yn dreisgar yn ddireswm. Nid oes unrhyw wybodaeth arall yn hysbys i asiantaethau ynglŷn ag ymddygiad fel hyn.

**6.2.10** Nid yw David wedi cael diagnosis o salwch meddwl. Gall resymoli a gweithredu.

**6.2.11** Disgrifir David gan y tystion fel unigolyn tawel, di-serch, cenfigennus a meddiannol yn y berthynas. Roedd pawb y siaradwyd â nhw yn cwestiynu'r hyn a oedd yn ymddangos yn berthynas 'od'.

**6.2.12** Disgrifiwyd David hefyd fel bod yn rhy amhriodol o rywiol yn ei sgwrs, gan rannu manylion rhywiol personol ynglŷn â phornograffi a syniadau rhywiol eraill am gael perthynas rywiol deirffordd a 'threisio'. Roedd yn gwneud sylwadau 'cellweirus' amhriodol am dreisio Lucy yn ei chwsg.

**6.2.13** Mewn ymgais i'w bortreadu *ei hun* fel dioddefwr, yn ystod yr wythnosau cyn y drosedd, honnir i David wneud datgeliadau **di-sail** i'w dad, John, er mwyn llunio darlun negyddol o Lucy, gan nodi bod Lucy yn 'ymosodol' tuag ato. Honnodd ei bod yn yfed yn drwm a oedd yn golygu bod eu perthynas yn 'ansefydlog', gan ddweud ei bod yn aml yn rhy feddw i fynd â'r bechgyn i'r ysgol, a'i fod yn credu ei bod yn 'chwarae o gwmpas'.

**6.2.14** Nid yw'r Awdur wedi ceisio siarad gyda thad David am yr honiadau hyn, gan nad oedd eisiau cael ei thynnu i mewn i unrhyw ddatganiadau 'cyfiawnhau' gyda thad y cyflawnwr. Fodd bynnag, ni chanfuwyd **unrhyw** dystiolaeth i brofi ei honiadau yn yr adolygiad hwn. Roedd y panel adolygu hefyd eisiau gwneud pwynt o beidio â chael eu tynnu i mewn i unrhyw ddadl ynglŷn â beio'r dioddefwr.

**6.2.15** Drwy gyflwyno'r cyfrif di-sail hwn, nid yw'r awdur yn ceisio lleihau gweithredoedd llofruddiol David, dim ond dangos ei agwedd meddwl. Mae'r panel yn sicr na chafodd unrhyw un o'i honiadau eu cefnogi na'u profi gan unrhyw ddatganiad tyst arall a gymerwyd gan yr Heddlu.

**6.2.16** Mae'n ymddangos bod gan Lucy nifer o ffrindiau, sydd i'w weld yn groes i gylch David. O'r wybodaeth a gafwyd gan gymdogion, ffrindiau a theulu, nid oes unrhyw un i'w gweld wedi rhoi gwybod i'r heddlu eu bod yn amau bod David yn dreisgar tuag at Lucy nac yn ei cham-drin na'i rheoli drwy orfodaeth. Dyma grynodebau o'r datganiadau perthnasol a wnaed. Ni lwyddodd yr awdur i holi'r tystion ymhellach na chael mwy o fanylion ar gyfer yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, ar y sail y gwnaed y datganiadau hyn i'r heddlu, derbynnir eu bod yn wir.

**Cyfraniadau tystion[3].**

**6.4.1** **Mike:** Gwnaeth ddatganiad i'r heddlu ar ôl y digwyddiad. Ni roddwyd gwybod am unrhyw beth i'r awdurdodau cyn y llofruddiaeth. Roedd Mike yn gefnder cyntaf i Lucy, ac adroddir bod ganddo berthynas wych â Lucy, gan eu bod wedi cael eu magu'n lleol gyda'i gilydd. Mae'n briod â ffrind gorau Lucy, sef Mary. Roedd yn adnabod Lucy a David drwy gydol eu perthynas a gofynnwyd iddo fod yn was priodas iddynt, a oedd yn syndod iddo, gan nad oedd David ac ef yn agos.

**6.4.2** Disgrifiodd David fel unigolyn 'od' ac roedd yn cael ei synnu gan sgyrsiau David a oedd yn aml yn amhriodol ac yn rhywiol iawn, gan gynnwys sôn am gael perthynas rywiol

[3] Cymerwyd y rhain o ddatganiadau i'r heddlu a rannwyd gyda'r panel er diben statudol.

deirffordd, er ei fod hefyd yn ddyn cenfigennus iawn a oedd wastad yn meddwl bod Lucy yn cael perthynas gyda rhywun arall. Yn ystod y flwyddyn cyn y llofruddiaeth, dywedodd fod David wastad yn anhapus.

**6.4.3** Mae Mike yn cofio David yn dweud fwy nag unwaith, mewn modd cellweirus, *'If she finishes with me, I will fucking kill her'* ac *'If I can't have her, no one can'*. Gwnaed y datganiadau hyn o flaen Lucy, a chwarddodd yn ôl pob sôn, oedd yn dangos nad oedd ganddi ofn y sylwadau hyn. Mae hyn yn berthnasol gan ei fod yn dangos nad oedd Lucy'n ei hystyried ei hun yn ddioddefwr. Fodd bynnag, roedd datganiadau haerllug David hefyd yn datgelu ei fod yn teimlo na fyddai unrhyw un yn ei herio am wneud y sylwadau hynny.

**6.4.4** Ym mis Medi 2020, dywedodd Mike fod Lucy wedi rhoi gwybod iddo fod David wedi bygwth hunanladdiad pan oedd wedi gwahanu dros dro oddi wrth Lucy, ac yn byw ar wahân iddi. Aeth Mike draw i weld David i gynnal 'gwiriad lles' a gweld ei fod wedi bod yn yfed alcohol (rym Captain Morgan), yn feddw, gyda chyllell cegin a thabledi wedi'u gosod ar y bwrdd ac yn dweud, *'I can't live without her'*. Treuliodd Mike ychydig o amser yn tawelu David, gan daflu'r tabledi a chadw'r gyllell yn y pen draw. Nid yw'n ymddangos i unrhyw ymyriad arall ddigwydd. Nid oes cofnod o unrhyw atgyfeiriad meddygol na bod David wedi ceisio cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau na chyngor o ran hunanladdiad. Mae ceisio cyflawni hunanladdiad a bygwth gwneud hynny yn un o nodweddion ymddygiad a gysylltir â thechnegau gorfodaethol a rheolaethol (a drafodir yn nes ymlaen).

**6.4.5** Aeth Mike i barti ar 20.08.2021, ac roedd Lucy yno heb David. Mae'n cofio iddi gael sawl galwad ffôn gan David a dywedodd nad oedd David eisiau iddi fynd allan, a dyna pam ei fod yn ei ffonio'n ddi-baid. Eglurodd ei bod yn anhapus iawn ac am ddod â'r berthynas i ben.

**6.4.6** Gwelodd Mike David ar y prynhawn cyn i Lucy farw (25.08.2021) a'i ddisgrifio fel bod yn 'anarferol o fywiog', a chredai fod David wedi bod yn yfed ond nad oedd wedi meddwi.

**6.4.7** Yna, treuliodd Mike gyda'r nos gyda Lucy ac eraill cyn mynd yn ôl i yfed yn yr ardd yn nhŷ Lucy, tra bod David yn mynd i weithio. Mae'n cofio David yn ffonio Lucy yn ddi-baid, ond wnaeth hi ddim ateb ei alwadau. Gadawodd am hanner nos ac roedd Lucy'n dal yn fyw yn ei chartref.

**6.5.1** **Mary:** Ar ôl cytuno i siarad â'r awdur i gychwyn, ni atebodd Mary unrhyw alwadau ffôn na negeseuon. Fodd bynnag, gwnaeth ddatganiad i'r heddlu ar ôl y digwyddiad. Nid oedd wedi gwneud unrhyw adroddiadau i'r awdurdodau cyn y llofruddiaeth. Mary oedd ffrind gorau Lucy ers eu plentyndod ac mae'n briod â Mike (cefnder Lucy). Roedd ganddynt hwy bedwar o blant hefyd, felly roeddent yn treulio cryn dipyn o amser gyda'i gilydd.

**6.5.2** Roedd gan Mary berthynas anodd iawn â David gan nad oedd yr un o'r ddau'n hoffi ei gilydd. Roedd yn meddwl bod David yn rheolaethol, gan nodi ei fod yn defnyddio ei 'dôn' i awgrymu nad oedd yn fodlon gyda rhywbeth ac yn ceisio gwrthod gadael iddi

weld Lucy. Dywedodd David fod Mary yn mynd ar draws eu perthynas a'i fod eisiau Lucy a'r bechgyn iddo'i hun. Roedd Mary'n sylweddoli ei fod yn genfigennus o gyfeillgarwch Lucy â'i ffrindiau benywaidd.

**6.5.3** Dywedodd Lucy wrth Mary ei bod yn teimlo'n 'sâl' am fod David wedi dweud wrthi ei fod wedi cael rhyw gyda hi pan oedd yn cysgu. Mae'n bwysig nodi yma bod yr hyn y mae Lucy yn ei ddisgrifio mewn gwirionedd yn achos o dreisio, ond nid felly y disgrifiodd hi'r peth, ac ni sylweddolodd y ffrindiau y dywedodd hi hyn wrthynt mai dyma'r achos ar y pryd. Yn yr adroddiadau i'r heddlu ar ôl yr achos fel rhan o'r ymchwiliad llofruddiaeth, datgelwyd y dulliau y byddai David yn eu defnyddio i'w rheoli, ac un o'r rhain oedd trais rhywiol (na roddwyd gwybod i'r heddlu amdano). Y rheswm mwyaf amlwg fyddai pŵer a rheolaeth a theimlad o hawl (trafodir hyn yn adran 14).

**6.5.4** Dywedodd Mary hefyd fod David yn ymddwyn yn rhy rywiol, yn aml yn disgrifio pornograffi, a'i fod wedi cyfaddef iddi ei fod wedi cael rhyw gyda Lucy tra'i bod yn cysgu (trais), gan ddweud, *'how else am I going to have sex?'* Dywedodd Mary y gwyddai na fyddai Lucy byth yn dweud hyn wrth yr heddlu, er ei fod yn codi pwys arni. Ni roddodd Mary wybod i'r heddlu am hyn.

**6.5.5** Treuliodd Mary'r noson cyn y llofruddiaeth gyda Lucy ac eraill, ac roedd yn dyst i nifer o alwadau gan David i ffôn Lucy tra'r oeddent yn eistedd yn yr ardd yn yfed. Dywedodd Lucy, *'I have a feeling that he is going to come home from work and come here (home)'*, ond ychwanegodd, *'He wouldn't do anything with the kids here'*.

**6.5.6** Roedd Mary yn ymwybodol o drafferthion Lucy gyda David, am fod Lucy wedi rhannu'r rhain gyda hi. Mae'n dweud ei bod hefyd yn ymwybodol bod Lucy wedi dweud wrth David bod y berthynas ar ben yn yr wythnos cyn y llofruddiaeth, a bod David yn amau ei bod yn gweld rhywun newydd.

**6.6.1** **Alex:** Gwnaeth ddatganiad i'r heddlu ar ôl y digwyddiad. Ni adroddwyd am unrhyw beth i'r awdurdodau cyn y llofruddiaeth. Roedd Alex yn ffrind agos i Mike, yn rhan o'r un cylchoedd cymdeithasol ac wedi adnabod Lucy a David ers 4 mlynedd, er nad oedd yn ffrindiau gyda David. Roedd yn y dafarn ar y noson honno ac yna yng ngardd Lucy. Gwelodd y galwadau di-baid i'w ffôn gan David yn ystod y noson. Roedd ef a Lucy newydd ddechrau egin-berthynas, wedi cusanu ar ddau achlysur ar ôl i Lucy gadarnhau ei bod hi a David wedi gwahanu.

**6.7.1** **Leah:** Ar ôl cytuno i siarad â'r awdur i gychwyn, ni atebodd Leah unrhyw alwadau ffôn na negeseuon. Fodd bynnag, gwnaeth ddatganiad i'r heddlu ar ôl y digwyddiad. Ni roddwyd gwybod am unrhyw beth i'r awdurdodau cyn y llofruddiaeth. Leah sy'n sôn am yr ymddygiad rheolaethol mwyaf arwyddocaol. Dywedodd Leah iddi gyfarfod David pan gychwynnodd Lucy ac ef fod yn gariadon. Codwyd ei phryderon pan oedd yn gwaeddi ar Lucy.

**6.7.2** Disgrifiodd David fel unigolyn nad oedd yn yfed alcohol ond a oedd, yn ei barn hi, yn rhywiol bryfoclyd, yn siarad am arian, pornograffi a chael perthynas rywiol deirffordd. Roedd David yn siarad am fastyrbio yn y gwaith. Roedd yn gwneud sylwadau rhywiol bryfoclyd am ei phartner benywaidd.

**6.7.3** Disgrifiodd Leah David fel unigolyn oriog ac anghymdeithasol, oedd yn genfigennus bod Lucy yn mynd allan a bod ganddi ffrindiau. Dywedodd y byddai'n dweud wrth Lucy pa ddillad i'w gwisgo, faint o'r gloch i ddod adra, yn edrych yn bwdlyd mewn digwyddiadau cymdeithasol ac yn ffonio Lucy yn ddi-baid bob tro'r oedd hi'n mynd allan. Disgrifiodd ef fel person ystrywgar, yn defnyddio'r plant fel 'arfau', gan eu hanfon ati'n crio ac wedi cynhyrfu os nad oedd hi eisiau gadael digwyddiad pan oedd o eisiau mynd.

**6.7.4** Disgrifiodd Leah barti ar 20.08.2021 pan oedd Lucy wedi dod â'i pherthynas gyda David i ben. Roedd yn ei ffonio'n ddi-baid. Dywedodd Lucy wrthi fod David wedi dweud, *'If I can't have you then no one can'*. Sicrhaodd Leah Lucy fod pob person rheolaethol yn defnyddio ymadroddion fel hyn, ond nid oedd yn ofni'r gwaethaf ar y cam hwn.

**6.7.5** Roedd Leah yn cofio David yn cyfeirio at ei blentyn o berthynas flaenorol unwaith, gan ddweud, *'she's going to be a little slag, just like her mother'*.

**6.7.6** Gwnaeth sawl person arall ddatganiadau i'r heddlu ynglŷn â'r noson dan sylw, ond nid oedd eu sylwadau'n ychwanegu unrhyw beth arall o bwys at yr hyn a oedd yn hysbys am David a Lucy, ar wahân i ddweud eu bod yn gwybod eu bod yn gwpl (ysbeidiol), heb ychwanegu unrhyw beth pellach i'r adolygiad hwn.

**6.8.1** **Plant**: Ni chymerwyd unrhyw ddatganiadau gan y plant ar ôl y llofruddiaeth, er y recordiwyd datganiadau llafar cychwynnol gan yr heddlu. Cyfeirir at y rhain yn yr adroddiad hwn.

**6.8.2** Dengys Cofnodion yr Ysgol (a drafodir yn adran 13) fod y plentyn hynaf wedi cyfeirio droeon at y ffaith fod eu rhieni'n ffraeo. Fel y soniwyd **yn flaenorol**, gwnaeth y plentyn ddatganiad llafar i'r heddlu yn nodi bod y tad wedi dweud wrth y plentyn bod eu mam wedi gwneud rhywbeth drwg drwy 'gusanu rhywun arall'. Ni wnaeth yr heddlu a oedd yn cofnodi gwestiynu na herio'r cyfrif hwn.

**6.8.3** **Rhieni a chwaer Lucy:** Oherwydd rhesymau personol, nid oedd yr un o rieni Lucy'n teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Er y bu chwaer Lucy o gymorth gyda rhywfaint o wybodaeth, nid oedd hithau eisiau cymryd rhan yn y broses adolygu.

**Adran 7. Cyfranwyr i'r Adolygiad/ Asiantaethau a gyflwynodd Adolygiadau Rheoli Unigol (ARhU):**

7.1.1 Mae Is-grŵp/panel yr ALID yn atebol i Gadeirydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint. Caiff unigolion â statws digon uchel eu dewis o sefydliadau lleol ac asiantaethau statudol yn draddodiadol.

7.1.2 **Asiantaethau cysylltiedig**

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

- Gwasanaethau Prawf Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Bwrdd Iechyd Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion) [4]CSFf
- Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant) CSFf
- Addysg CSFf
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig Lleol
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Cafwyd cymorth a chyngor hefyd gan yr Uned Diogelwch Trais Teuluol a Chymorth i Ferched Clwyd Alyn. Gwasanaethau cymorth a ddarperir yn Sir y Fflint yw'r rhain.

7.1.2 Mae'n arfer safonol yn Sir y Fflint cynnal ymarfer 'cwmpasu' er mwyn dod i ddeall graddfa'r adolygiad a chadarnhau y bodlonwyd y meini prawf cyn hysbysu'r Swyddfa Gartref. Mae'n gam pellach i helpu sicrhau cyfraniad partneriaid yn y broses adolygu. Ar yr achlysur hwn, roedd y ffaith i'r arestiad CD ddigwydd ar unwaith yn dangos y dylai'r adolygiad gael ei gynnal, felly cynhaliwyd yr ymarfer cwmpasu gan y Cadeirydd. Gwnaed hyn i gadarnhau pa wybodaeth oedd gan yr asiantaethau allai fod wedi bod mewn cyswllt â Lucy neu David, os oedd ganddynt wybodaeth o gwbl, ac i hysbysu aelodau panel yr ALID.

7.1.3 Ar ôl cyfarfod cychwynnol y panel, ychydig iawn o ymatebion cwmpasu a gafwyd (3) i ddangos a oedd gan unrhyw asiantaeth wybodaeth am naill ai Lucy neu David. Roedd yn ymddangos mai ychydig iawn o ryngweithio a gafwyd gydag asiantaethau. Er gwaethaf hyn, ymgynghorwyd â thîm o gynrychiolwyr arbenigol, a dyma'r asiantaethau sy'n llunio grŵp craidd y gwasanaethau Cam-drin Domestig yng Nghymru ac a ystyrir yn gyfranwyr priodol i'r adolygiad hwn.

7.1.4 Mae'r adroddiad trosolwg hwn yn ddetholiad o wybodaeth a ffeithiau gan y sefydliadau a gynrychiolir ar y Panel, yr oedd nifer ohonynt yn asiantaethau cymorth posib i Lucy a David.

| **Asiantaeth** | **Cyfraniad** |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru HGC | Cronoleg / datganiadau'r Heddlu / ARhU |
| Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WASP) | Cronoleg |
| Cyngor Sir y Fflint - (Portffolio Addysg ac Ieuenctid)[5] | Cronoleg / ARhU |

7.1.5 Mae Canllawiau'r Swyddfa Gartref yn egluro y dylai ARhU gynnwys cronoleg gynhwysfawr sy'n cofnodi cyswllt yr asiantaeth â'r dioddefwr ac unrhyw unigolyn arall sy'n gysylltiedig â'r adolygiad, a hynny dros y cyfnod amser a nodir yng Nghylch Gorchwyl yr adolygiad. Dylai grynhoi: y digwyddiadau; unrhyw wybodaeth sy'n hysbys i'r asiantaeth; y penderfyniadau a wnaed; y gwasanaethau a gynigiwyd ac a ddarparwyd i destunau'r adolygiad; ac unrhyw gamau eraill a gymerwyd.

[4] Cyngor Sir y Fflint

[5] Rhoddodd yr Ysgol becyn o wybodaeth i Brif Swyddog CSFf a ddarparwyd yn flaenorol i'r Llys. Mae'r pecyn gwybodaeth yn rhoi crynodeb fyfyriol o'r teulu.

7.1.6 Ni ddylai awdur unrhyw ARhU fod ag unrhyw wybodaeth flaenorol am destunau'r adolygiad na bod wedi cael unrhyw gysylltiad â darparu gwasanaethau iddynt. Cant eu dewis fel pobl sy'n annibynnol ar unrhyw swyddogaeth oruchwylio glinigol neu fel rheolwr atebol ar gyfer unrhyw un o'r ymarferwyr a ddarparodd ofal i destunau'r adolygiad ac a allai gynnig dadansoddiad o'r digwyddiadau; y penderfyniadau a wnaed; a'r camau a gymerwyd neu na chymerwyd.

7.1.7 Os bernir neu os cymerir camau sy'n dangos y gellid gwella ymarfer neu reolaeth, dylai'r adolygiad ystyried nid yn unig yr hyn a ddigwyddodd, ond pam. Dylai pob asiantaeth ddarparu cronoleg o'r rhyngweithiad â thestunau'r adolygiad, gan gynnwys pa benderfyniadau a wnaed a pha gamau a gymerwyd, cyn cwblhau'r ARhU.

7.1.8 Dylai'r ARhU ystyried y Cylch Gorchwyl a p'un a ddilynwyd y gweithdrefnau mewnol a p'un a oeddent yn ddigonol, o feddwl yn ôl. Gofynnir i awduron ARhU gyrraedd casgliad ar gyswllt eu hasiantaeth eu hunain a gwneud argymhellion pan fo hynny'n briodol. Yna, dylai'r panel a'r Cadeirydd adolygu'r rhain.

7.1.9 Cafwyd ARhU gan HGC a WASP. Rhoddodd yr Ysgol y pecyn gwybodaeth i Gyngor Sir y Fflint.

**Adran 8 - Aelodau'r panel adolygu**

| Enw | Sefydliad a Rôl |
|---|---|
| Theresa Breen | Awdur a Chadeirydd Annibynnol |
| Peter Shakespeare | Cyngor Sir y Fflint, Swyddog Diogelwch Cymunedol |
| Richard Powell | Cyngor Sir y Fflint, Swyddog Diogelwch Cymunedol |
| Sian Jones | Cyngor Sir y Fflint, Rheolwr Gwarchod y Gymuned a Busnes |
| Jo Taylor | Cyngor Sir y Fflint, Nyrs Diagnosis Deuol |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint, Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) |
| Peter Robson | Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau |
| Annemarie McNally | Cyngor Sir y Fflint, Cyfreithiwr |
| Rob Mahoney | Heddlu Gogledd Cymru, Ditectif Arolygydd |
| Tim Owen | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau |
| Lowri Owen | Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, Cydlynydd[6] MAPPA |

[6] MAPPA yw'r acronym Saesneg am Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, a dyma'r broses y mae amrywiol asiantaethau fel yr heddlu, y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn ei defnyddio er mwyn cydweithio i amddiffyn y cyhoedd drwy reoli'r risgiau sy'n codi yn sgil troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw sy'n byw yn y gymuned

| | |
|---|---|
| Chris Weaver | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pennaeth Diogelu (Plant) |
| Christine Hinton | Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Uwch Arbenigwr Diogelu |

Cafwyd cymorth a chyngor hefyd gan yr Uned Diogelwch Trais Teuluol a Chymorth i Ferched Clwyd Alyn. Gwasanaethau cymorth a ddarperir yn Sir y Fflint yw'r rhain.

**Adran 9 - Awdur a Chadeirydd Annibynnol yr Adroddiad Trosolwg.**

9.1.1 Mae paragraffau 36 i 39 Canllawiau Statudol Amlasiantaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer Cynnal Adolygiadau Lladdiadau Domestig Rhagfyr 2016 yn nodi gofynion Cadeiryddion ac Awduron adolygiadau.

9.1.2 Dewiswyd Theresa Breen fel Cadeirydd y Panel Adolygu ac Awdur yr adroddiad. Bu iddi ymddeol o Blismona Prydeinig (nid yn Sir y Fflint) ym mis Tachwedd 2018 ar ôl 30 mlynedd o wasanaeth. Fel cyn uwch swyddog yn yr heddlu, bu'n gweithio mewn swyddi rheoli mewn amryw o feysydd plismona, gan gynnwys Troseddu Cyfundrefnol Difrifol, Gwrthderfysgaeth a Diogelu. Cafodd brofiad o adolygiadau drwy weithio'n helaeth mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, ac mae ganddi brofiad o gydweithio â nifer o wahanol gymunedau. Fe'i hyfforddwyd fel Uwch Swyddog Ymchwilio.

9.1.3 Bu'n gweithio ar draws nifer o bortffolios Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu yn Llundain a Surrey, gan reoli a goruchwylio [7]prosesau MAPPA a MARAC. Fel swyddog heddlu arweiniol Gwarchod y Cyhoedd yn Westminster, bu'n rheoli ac yn goruchwylio gwasanaethau CD mewn cymunedau amrywiol. Fel Comander Bwrdeistref yn un o Fwrdeistrefi Gorllewin Llundain, hi oedd aelod heddlu craidd y Grŵp Strategaeth Cryfach a Mwy Diogel. Yn gweithredu fel *'Gold London'*[8], roedd ganddi reolaeth strategol cyffredinol dros amryw o ddigwyddiadau, gan gynnwys rhai'n gysylltiedig â CD a lladdiadau.

9.1.4 Gan weithio mewn partneriaeth, arweiniodd TB hefyd drefn genedlaethol yr heddlu o weithredu argymhellion yr Adolygiad Gwella Gweithrediadol traws-asiantaethol a gynhaliwyd yn sgil gweithgarwch terfysgwyr ledled y Deyrnas Unedig yn 2017/18.

9.1.5 Nid yw TB wedi gweithio i unrhyw asiantaeth yn Sir y Fflint ac nid oes ganddi unrhyw gysylltiad ag unrhyw un o'r asiantaethau sy'n rhan o'r adolygiad hwn. Ystyrir bod TB felly'n annibynnol ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol y Swyddfa Gartref i fod yn Gadeirydd ALID.

[7]Mae MARAC yn gyfarfod amlasiantaeth sy'n hwyluso'r broses asesu risg ar gyfer unigolion a'u teuluoedd sy'n wynebu risg o drais a cham-drin domestig. Gwahoddir sefydliadau i rannu gwybodaeth gyda'r nod o adnabod unigolion sy'n wynebu risg "uchel iawn" o drais a cham-drin domestig. Pan nodir risg uchel iawn, datblygir cynllun gweithredu amlasiantaeth i gefnogi pawb sy'n wynebu risg.

[8]Mae'r strwythur rheoli generig, a gydnabyddir, a dderbynnir ac a ddefnyddir yn genedlaethol gan yr heddlu, gwasanaethau brys eraill ac asiantaethau partner, wedi'i seilio ar yr hierarchaeth reoli aur, arian, efydd (AAE), a gellir ei ddefnyddio i ddatrys digwyddiadau digymell a gweithrediadau wedi'u cynllunio.

9.1.6 Mae TB wedi bod yn Gadeirydd ac Awdur 10 ALID, ac mae ar hyn o bryd yn Gadeirydd ac Awdur y broses beilot Adolygu Lladdiadau ag Arf Ymosodol (OWHR)[9] newydd. Mae'n hyfforddwr ar gyfer *Sancus Solutions*, yn darparu hyfforddiant diogelu a chydraddoldeb, ac mae wedi darparu'r hyfforddiant OWHR i dros 100 o ddirprwyon, gan gynnwys cynnig mewnbwn diogelu a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hefyd yn ymchwilydd annibynnol sy'n rhan o ymchwiliadau diogelu mewn chwaraeon.

**Adran 10 - Adolygiadau Cyfochrog**

10.1 Yng nghyfarfod cyntaf y panel, cafwyd trafodaeth i ganfod unrhyw adroddiadau Adolygiad Lladdiadau Domestig (ALID) blaenorol yn ardal y PDC a allai gynnwys gwersi a ddysgwyd a fyddai'n berthnasol i'r adolygiad hwn. Sefydlwyd fod 9 ALID digyswllt wrthi'n cael eu cynnal yn Sir y Fflint rhwng 1 Mai 2013 ac 1 Mai 2023. O'r rhain, roedd y troseddwr yn bartner gwrywaidd mewn pedwar achos (gan gynnwys yr achos hwn). Roedd un achos yn ymwneud â chwpl o ardal Bradford a oedd yn aros dros nos mewn parc gwyliau yng ngogledd Cymru. Cafodd hyn effaith ar asiantaethau a oedd yn rhan o adolygiadau a materion asiantaeth mewnol eraill. Nodwyd hyn gan y gallai achosi oedi ar gyfer ALID yn y dyfodol, oherwydd cynnydd posib mewn lladdiadau domestig yn yr ardal. Archwiliwyd cofnodion y PDC ac ni nodwyd unrhyw wersi na thueddiadau a ailadroddwyd yn yr adolygiadau hynny a oedd yn berthnasol i'r adolygiad hwn. Cadwyd yr eitem hon ar agenda pob un o gyfarfodydd y panel, a chafodd ei adolygu'n rheolaidd.

10.2 Cynhaliwyd post-mortem y Swyddfa Gartref ar 27.07.21, a chwblhawyd yr Adroddiad cychwynnol ar y post-mortem gan Dr Brian Rogers, Patholegydd Fforensig y Swyddfa Gartref. Nododd y patholegydd nifer o anafiadau sylweddol a nodwyd mai achos y farwolaeth oedd:

- Mygu, rhwystro'r llwybr anadlu o'r tu allan a chywasgu'r gwddf.

**10.3 <u>Ymchwiliad yr Heddlu</u>**

10.3.1 Arestiwyd David ar amheuaeth o lofruddiaeth. Dilynwyd gweithdrefnau arferol yr heddlu, gan gynnwys chwiliadau fforensig / arddangosion / DNA a chyfweliadau wedi'u recordio ar dâp dan rybuddiad. Cafwyd gafael ar samplau o natur bersonol ac fel arall yn ddiweddarach er mwyn cynnal cymariaethau DNA a fforensig.

10.3.2 Aseswyd David gan nyrs iechyd meddwl ac ystyriwyd ei fod yn addas i'w ddal ac yn addas i'w gyfweld heb gael oedolyn priodol yn bresennol.

10.4 **<u>Crynodeb o'r Cyfweliad</u>**: Holwyd David gan yr heddlu mewn sawl cyfweliad a recordiwyd ar dâp. Ni wnaeth unrhyw gyfaddefiadau o bwys drwy gydol y cyfweliadau na rhoi unrhyw gefndir i'w perthynas.

10.4.1 Fodd bynnag, gwnaeth un datganiad y cyfeirir ato uchod, ble dywedodd, *'You don't know what I've gone through for three years*'. Mae'r Awdur yn nodi hyn fel ymgais i'w

[9]Mae'r Adolygiad Lladdiadau ag Arf Ymosodol (OWHR) yn gynllun peilot gan y Swyddfa Gartref i fynd i'r afael â'r maes hwn o laddiadau sy'n ymwneud ag arfau ymosodol, sydd heb ei ymchwilio na'i adolygu'n ddigonol, mewn 4 safle peilot ar draws y DU.

bortreadu ei hun fel rhyw fath o 'ddioddefwr'. Byddwn yn trafod hyn yn fanwl yn nes ymlaen. Ni wnaeth unrhyw sylwadau ychwanegol.

10.4.2 Cafodd David ei gyhuddo o lofruddiaeth yn ddiweddarach. Fe'i cadwyd yn y ddalfa hyd nes ei dreial.

10.4.3 Ar ôl cwblhau adroddiadau seiciatryddol, ar 19.11.2021, plediodd David yn ddieuog i lofruddiaeth neu ddynladdiad Lucy. Trefnwyd y byddai'r treial yn dechrau ar 21.03.2022. Cyfaddefodd David i ddynladdiad yn ystod y treial.

10.4.5 Ni fydd manylion llawn yr anafiadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn o barch i'r teulu, ond mae'n bwysig cydnabod sylwadau diweddarach barnwr Llys y Goron wrth ddelio â'r anafiadau:

*'She lost her life at your hands in what was a brutal and remarkably cruel attack after ending a relationship. I shudder to think. Her young children were just yards away when you did what you did.*

*I watched you throughout this trial and you haven't shown the slightest bit of remorse. There can only be one sentence for murder and that is of life imprisonment.'*

Dedfrydwyd David i 25 mlynedd yn y carchar.

**10.4.6 Canlyniad y Crwner***:* Cychwynnwyd Cwêst y Crwner ac yna daeth i ben. Cadarnhaodd y crwner na fyddent yn ailgynnull yn dilyn casgliad y Treial Troseddol.

**Adran 11 - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

11.1.1 Drwy ystyried y naw Nodwedd Warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol), llwyddodd y Cadeirydd a'r Panel Adolygu i ystyried proffil, gwendidau ac anghenion Lucy gan ystyried /gwerthuso'r amrywiol wasanaethau a oedd ar gael (a ddarparwyd neu a ddefnyddiwyd).

11.1.2 Ystyriwyd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd wrth archwilio'r 'Canfyddiadau Allweddol o Ddadansoddiad o Adolygiadau Lladdiadau Domestig' Medi 2021 (dogfen y cyfeirir ati o hyn allan fel Dadansoddiad y Swyddfa Gartref 2021) a chwilio am debygrwydd a gwahaniaethau yn y canfyddiadau. Defnyddiwyd y wybodaeth allweddol o 124 ALID a adolygwyd gan broses sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref yn ystod y 12 mis o fis Hydref 2019 ymlaen i lywio'r adolygiad hwn. Bu i'r Awdur hefyd ystyried y wybodaeth o ddata Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022.

11.1.3 Wrth ystyried y nodweddion, roedd yr Awdur yn ystyriol o'r ffaith y dangoswyd bod gan tua 60% o gyflawnwyr hanes blaenorol o droseddu. O'r rhain, roedd tri chwarter wedi cam-drin partneriaid blaenorol a thraean wedi cam-drin aelodau teulu. Mae hyn yn cynnwys cyfran fechan a oedd wedi cam-drin partneriaid blaenorol ac aelodau teulu. Mae David yn dod o fewn y 60% gydag euogfarnau hysbys.

Dyma grynodeb ar gyfer pob categori:

11.2.1 **Rhyw:** Mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i ryw bob tro. Roedd Lucy yn fenyw ac mae David yn wryw. Dangosodd data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr bod 1.7 miliwn o ferched wedi profi cam-drin domestig yn ystod y cyfnod adrodd, sy'n cyfateb i 7 ym mhob 100 o ferched. Mae Cam-drin Domestig yn drosedd gudd nad yw'r dioddefwr yn rhoi gwybod i'r heddlu amdani'n aml.

11.2.2 Er nad oes gan yr asiantaethau unrhyw wybodaeth benodol sy'n nodi bod Lucy wedi dioddef cam-drin domestig drwy law David, mae gwybodaeth gadarn amdani'n dioddef ei ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, a byddwn yn trafod hyn yn fanwl yn nes ymlaen. Fel merch, mae'r tebygolrwydd y gallai fod wedi bod yn ddioddefwr yn uchel.

11.2.3 O archwilio Adolygiadau Lladdiadau Domestig, dengys cofnodion y Swyddfa Gartref bod mwyafrif (80%) y dioddefwyr cam-drin domestig yn fenywaidd a bod 83% o'r cyflawnwyr yn wrywaidd. Yn ogystal, mewn 73% o'r achosion, y partner neu'r cyn bartner oedd y cyflawnwr. Mae astudiaethau dadansoddol helaeth o laddiadau domestig mewn adolygiadau yn dangos erledigaeth ar sail rhywedd ymysg lladdiadau partner agos ac aelodau teulu. Mae mwyafrif y cyflawnwyr yn wrywod. Mae mwyafrif y dioddefwyr yn fenywod.

**11.3.1** **Oedran:** Roedd Lucy'n ferch 27 mlwydd oed adeg ei marwolaeth drychinebus. Roedd ei chyn bartner, David, 2 flynedd yn hŷn (29). Roeddent wedi cychwyn perthynas pan oedd hi'n gymharol ifanc. Awgryma gwaith ymchwil y gellir ystyried bod gwahaniaeth oedran yn creu anghydbwysedd o ran pŵer, ond bychan iawn oedd y gwahaniaeth oedran yma, felly ystyrir ei fod yn amherthnasol.

**11.3.2** Fodd bynnag, yn yr achos hwn, roedd Lucy wedi beichiogi gyda'i phlentyn cyntaf gyda David ar ôl 'carwriaeth un noson' pan oedd hi'n 16 oed. Mae'r ffaith ei bod mor ifanc yn bwrw amheuaeth ar yr hyder oedd ganddi yn ei phenderfyniadau. Dechreuodd Lucy a David berthynas gyda'i gilydd yn nes ymlaen ar ôl iddi eni eu plentyn.

**11.3.3** Yn Nadansoddiad y Swyddfa Gartref 2021, archwiliwyd y gyfran o ddioddefwyr a chyflawnwyr yn ôl gwahanol ystodau oedran. O astudio oedran y dioddefwyr, gwelwyd fod Lucy yn yr ail ystod oedran (18-29 oed=18%) oedd yn debygol o gael eu herlid. Roedd Lucy yn dod o fewn yr oedran cyfartalog y mae merched yn fwy tebygol o ddioddef unrhyw gam-drin domestig yn y flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, amcangyfrifir bod 28.4% o ferched rhwng 16 a 59 oed wedi profi rhyw fath o gam-drin domestig ers eu bod y 16 oed (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

**11.4.1** **Anabledd:** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio **anabledd** fel a ganlyn: "Amhariad corfforol neu amhariad meddwl sydd ag effaith andwyol 'hirdymor' 'sylweddol' ar allu unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau arferol bob dydd." Er nad oes unrhyw wybodaeth i awgrymu bod y diffiniad hwn yn berthnasol i Lucy na David o ran anabledd corfforol nac anawsterau dysgu a chyfathrebu, mae awgrym bod David yn dangos rhai problemau iechyd meddwl, gan gynnwys straen a gorbryder, cyn y llofruddiaeth hon. Penderfynwyd nad oedd angen rhoi ystyriaeth benodol i Nodwedd Warchodedig anabledd yn yr adroddiad hwn.

**11.6.1** **Ailbennu rhywedd** – Amherthnasol i'r Adolygiad hwn

**11.6.1** **Priodas a phartneriaeth sifil:** Roedd Lucy a David yn briod. Yn ôl datganiadau'r heddlu, ymddengys mai David oedd perthynas arwyddocaol gyntaf Lucy, a'r unig un iddi ei chael, ers iddynt gwrdd pan oedd yn 16 oed. Cawsant 2 o blant gyda'i gilydd i ddechrau, gan gyd-fyw cyn priodi, ac fe'i disgrifiwyd fel bod yn feichiog iawn adeg eu priodas ym mis Mawrth 2019. Roedd ganddynt gyfanswm o 4 o blant gyda'i gilydd adeg ei marwolaeth.

**11.6.2** Roedd priodas yn berthnasol i'r adolygiad hwn. Dangosodd gwybodaeth gan berthnasau a ffrindiau fod David yn daer am i'r briodas barhau. Caiff ei ddyfynnu gan Liz yn dweud *'she's mine now'* ar ddiwrnod eu priodas. Roedd bod yn briod yn ffurfiol yn golygu bod mwy o gymhlethdodau cyfreithiol ac ariannol i'r gwahaniad arfaethedig.

**11.6.3** Nid oedd gan Lucy unrhyw gyn bartneriaid hysbys, ond roedd wedi gwahanu oddi wrth David ar sawl achlysur, yn fwyaf nodedig ychydig ddyddiau yn unig cyn y llofruddiaeth. Roeddent wedi bod yn cydfyw yn ystod yr wythnosau cyn ei marwolaeth yn nhŷ ei mam (roedd ei mam yn aros gyda'i nain oedrannus oedd wedi cael llawdriniaeth). Roedd Lucy wedi dweud wrth David bod y berthynas ar ben yn ffurfiol, ac wedi cychwyn ar egin-berthynas (heb fod o natur bersonol) gyda dyn arall.

**11.7.1** **Beichiogrwydd a mamolaeth:** Roedd Lucy yn fam i bedwar o blant o dan 10 oed adeg ei llofruddiaeth. Fel rhan o'i gofal mamolaeth, drwy ymholiadau arferol, byddai Lucy wedi cael ei holi ynglŷn ag unrhyw gamdriniaeth o fewn ei pherthnasoedd. Nid oes unrhyw wybodaeth ei bod wedi datgelu unrhyw bryderon i weithwyr proffesiynol ynglŷn â chamdriniaeth o fewn y berthynas hon yn ystod unrhyw feichiogrwydd.

11.8.1 **Hil:** Mae cyfrifiad 2021 yn nodi bod poblogaeth Sir y Fflint yn bennaf wyn (97.6%), gyda lleiafrifoedd nad ydynt yn wyn yn cynrychioli'r 2.4% arall o'r boblogaeth. Roedd Lucy a David o Dras Wyn Brydeinig. Nododd y panel nad oedd unrhyw broblemau o bwys i'w hystyried o ran hil na lleiafrifiaeth a oedd yn cael effaith ar yr adolygiad hwn.

11.8.2 Wrth gael gafael ar wasanaethau, ni fyddai unrhyw heriau wedi codi o ran iaith na'r defnydd o ddehonglwyr i Lucy na David.

11.9.1 **Crefydd / Cred:** Nid yw credoau crefyddol y cwpl yn hysbys ac ni chredir eu bod yn berthnasol i'r digwyddiadau sy'n cael eu hadolygu.

**11.10.1** **Cyfeiriadedd Rhywiol:** Credir mai cyfeiriadedd rhywiol y ddau oedd heterorywiol. Er bod gwybodaeth a ddatgelwyd ar ôl y digwyddiad yn awgrymu bod David yn rhywiol bryfoclyd ac yn annog 'perthynas rywiol deirffordd', nid oes unrhyw wybodaeth i brofi bod hyn wedi digwydd.

**11.10.2** Trafodwyd croestoriadedd yn helaeth yn ystod cyfarfod y panel. Yn syml, mae croestoriadedd yn disgrifio'r ffordd y mae systemau anghydraddoldeb sydd wedi'u seilio ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig, a/neu ddosbarth neu fathau eraill o wahaniaethu, yn "croestorri" i greu deinameg ac effeithiau unigryw. Yn yr achos hwn, ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael i archwilio a effeithiodd croestoriadedd ar Lucy. Nid yw'r cofnodion yn dangos unrhyw wendidau penodol.

**Adran 12 - Rhannu'r Adroddiad**

- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint
- Pob asiantaeth sydd wedi cyfrannu i'r adolygiad
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Y Comisiynydd CD

**Adran 13 - Cefndir, Trosolwg a Chronoleg**

13.1.1 Mae rhan hon yr adroddiad yn cyfuno elfennau o'r adrannau ar gefndir, trosolwg a chronoleg yn nhempled adroddiad trosolwg Canllawiau ALID y Swyddfa Gartref. Gwnaed hyn er mwyn osgoi dyblygu gwybodaeth. Adroddir y naratif yn gronolegol (pan fo'n hysbys), yn ôl dyddiad, er mwyn rhoi hanes cefndir perthnasol Lucy a David cyn llinellau amser yr adolygiad, yn ogystal ag yn ystod cyfnod yr adolygiad, ac fel y nodir yn y cylch gorchwyl, er mwyn rhoi cyd-destun i'w hanes. Mae wedi'i ddatblygu'n bennaf ar sail bywyd Lucy. Mae'n cynnwys is-benawdau bob hyn a hyn er mwyn ei wneud yn haws ei ddeall.

13.1.2 Mae'r wybodaeth yn dod gan ffrindiau Lucy (y cyfeirir atynt yn adran 6 uchod), dogfennau a gafwyd gan asiantaethau ac o ymchwiliad yr heddlu yn dilyn marwolaeth Lucy. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn ffeithiol. Mae'r dadansoddiad i'w weld yn adran 14 yr adroddiad.

**13.2 Gwybodaeth berthnasol cyn cyfnod yr adolygiad**

13.2.1 O adolygu'r cronolegau a'r ARhU, nid yw'n ymddangos bod gan unrhyw un asiantaeth dystiolaeth amlwg nac amheuaeth bod Lucy yn dioddef unrhyw gamdriniaeth gorfforol nac ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol arall drwy law David, felly mae'n annhebygol y byddai unrhyw un asiantaeth yn ymwybodol o hyn. Mae'r awdur hefyd yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth bod Lucy erioed wedi datgelu unrhyw gamdriniaeth gorfforol nac emosiynol i unrhyw asiantaeth nac wedi cydnabod unrhyw ymddygiad negyddol yn y berthynas hon.

13.2.2 Mae'n bwysig bod gan bob asiantaeth yr adnoddau a'r hyder sydd eu hangen i adnabod darpar ddioddefwyr ac ymyrryd yn gynnar, mewn modd sensitif, pan fo hynny'n bosib, gan eu hatgyfeirio fel bo'n briodol i asesu a lliniaru'r risg. Dengys archwiliad o'r hyn a oedd yn hysbys ar adegau allweddol i'r asiantaethau nad oedd unrhyw bwyntiau tyngedfennol lle gallai rhannu gwybodaeth fod wedi arwain at ganlyniad gwahanol yn yr achos hwn. Mae'n amhosib asesu risg yn effeithiol heb ddata cynhwysfawr. Roedd diffyg atgyfeiriad ac asesiad yn golygu na ellid rhannu gwybodaeth a'i asesu am risgiau.

13.2.3 Dengys cofnodion yr ysgol nad oedd gan y plant unrhyw gyswllt â diogelwch cymunedol. Ymddengys bod y teulu wedi ymwneud â gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, yn gymysgedd o wasanaethau Dechrau'n Deg a Chyffredinol, ac y cynhaliwyd pob cyswllt arferol. Nid oes unrhyw ddogfennaeth yn ymwneud â phryder CD.

13.2.4 Cynhaliwyd Ymholiadau Arferol naill ai gan fydwraig neu Ymwelydd Iechyd ar gyfer y ddau blentyn ieuengaf. Cynhaliwyd asesiadau iechyd emosiynol yn unol â'r canllawiau. Nodwyd bod iechyd a lles y fam a'r 4 bachgen yn foddhaol ar y cyfan. Nodwyd bod Lucy yn dangos sgiliau rhianta priodol wrth geisio cyngor

meddygol ac apwyntiadau iechyd. Ychydig iawn o gyswllt a nodwyd gyda David yn ystod ymweliadau arferol.

13.2.5 Derbyniodd y plant ofal gan wasanaethau BIPBC, yr Ymwelwyr Iechyd a'r Nyrsys Ysgol. Nid oedd David yn hysbys i BIPBC.

13.2.6 Derbyniodd Lucy ei holl ofal cynenedigol gan Ysbyty'r Countess of Chester, ac nid oes unrhyw beth perthnasol i'r adolygiad hwn wedi'i gynnwys yn ei Chofnodion Gofal Sylfaenol.

13.2.7 Dim ond dau ddigwyddiad a gofnodwyd gan yr heddlu, ac rydym wedi trafod y rhain.

**13.3 Gwybodaeth berthnasol yn ystod yr adolygiad (Cyfyngedig iawn oherwydd na chafwyd llawer o ymateb i'r ymarfer cwmpasu).**

13.3.1 Ffoniodd Lucy'r heddlu[10] a dweud bod David wedi casglu'r plant o dŷ eu taid a nain ac wedi mynd â nhw i'r gwaith. Roedd hyn am 23.40 o'r gloch (20.09.20). Ni nodwyd unrhyw risg uniongyrchol felly ni ystyriwyd bod angen anfon swyddog. Mae'r Polisi Perthnasol mewn perthynas â Phryderon am Blant wedi'i gynnwys yn yr Ymarfer Proffesiynol a awdurdodir gan yr Heddlu. Yn yr achos hwn, ni fyddai'r amgylchiadau'n cyfrif fel achos o unigolyn coll na herwgydio plentyn. Caglodd yr unigolyn a atebodd yr alwad y wybodaeth briodol a darparwyd ymateb cymesur.

13.3.2 Mae cofnodion yr ysgol[11] (07.12.20) yn nodi bod un o'r athrawon wedi siarad gyda Lucy am y ffaith i un o'r plant gael 'diwrnod sigledig' a'i fod yn poeni y byddai'n cael ei ddisgyblu. Ni nodwyd unrhyw broblemau nac unrhyw bryderon diogelu.

13.3.3 Mae cofnodion yr ysgol[12] (rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2021) yn nodi digwyddiadau'n ymwneud ag ymddygiad sy'n gysylltiedig â dau blentyn, a nodiadau o sesiynau anogaeth y buont yn cymryd rhan ynddynt, yn ymwneud ag archwilio, deall a rheoli teimladau.

13.3.4 Mae cofnodion yr ysgol[13] (21.06.2021) yn nodi bod Lucy wedi gofyn am gyngor ar ôl i un o'r plant ddarlunio delwedd rywiol dros y penwythnos (dyn a dynes yn cymryd rhan mewn gweithred rywiol) a gwneud sylwadau am dreiddio. Dywedodd Lucy fod David wedi holi'r plentyn am hyn ac iddo ddweud mai disgybl arall oedd wedi dweud wrth y plentyn am hyn. Cynghorodd y Pennaeth Lucy i chwilio am lyfrau addas i'r oedran yn y llyfrgell neu mewn siop ar-lein i'w helpu i gael sgyrsiau priodol gartref. Rhoddwyd yr un cyngor i riant y disgybl arall, gan ddweud wrthynt am fod yn wyliadwrus o'r hyn y gallai'r plant fod yn ei weld ar ddyfeisiau symudol. Dywedodd y Pennaeth wrth y staff am fonitro'r plant yn ofalus yn y dosbarth am unrhyw ymddygiad o'r fath yn y dyfodol.

13.3.5 Roedd cofnodion yr ysgol, a gynhyrchwyd ar gyfer y llys, a hefyd ar ffurf y gronoleg, yn cynnwys crynodeb o'r nodiadau briffio a ddarparwyd gan Gydlynydd Cynhwysiant yr ysgol. Mae'r ysgol yn cofnodi na chawsant erioed unrhyw bryderon am unrhyw un o'r plant a fyddai'n cyfiawnhau unrhyw fath o bryder nac atgyfeiriad Amddiffyn Plant. Dywedodd yr ysgol fod y plant i gyd yn drwsiadus, yn gwisgo'r wisg ysgol gywir, yn lân ac yn daclus gyda bocs bwyd

[10]Ffynhonnell: Cronoleg HGC
[11]Ffynhonnell: Cronoleg yr Ysgol
[12]Ffynhonnell: Cronoleg yr Ysgol – Rhwng Ionawr 2020 a Rhagfyr 2021
[13]Ffynhonnell: Cronoleg yr Ysgol

priodol bob diwrnod. Dywedodd yr ysgol bod y ddau riant yn barod iawn eu cymwynas gyda'r ysgol, yn agored ac yn onest gyda'r ysgol, yn ymateb i alwadau ac yn dod i nosweithiau rhieni'n rheolaidd.

### 13.4 Diwrnod y llofruddiaeth

13.4.1 Ar 25.08.2021, roedd Lucy gartref gyda'i phlant a'i chefnder, Mike, ei bartner yntau, Mary, a'u plant nhw. Daeth David draw i gasglu rhai o'i bethau ac i ofalu am y plant tra bod Lucy'n mynd i'r dafarn.

13.4.2 Am tua 16:30, aeth Lucy i'r dafarn gyda Mike a Mary a chyfarfod ffrindiau eraill yno (Alex a Harry). Roedd Lucy newydd ddod â'r berthynas â David i ben, ond roedd yn dal i ymwneud â'r plant ac yn aros gyda'i rieni.

13.4.3 Am 17:50, gadawodd Lucy y dafarn gyda'i chefnder, Mike, ei bartner, Mary, a'u plant, a dychwelyd adref er mwyn i David gael mynd i'w waith.

13.4.4 Arhosodd Alex a Harry yn y dafarn tan tua 20:00 ac roedd modryb Lucy, Liz, wedi galw draw ac wedi siarad ag ef, gan gofio iddo ddweud, *'I've got issues that I need to get over'* a'i fod am wneud popeth o fewn ei allu *'to win her back'*.

13.4.5 Yna ymunodd Alex a Harry â'r lleill yng nghartref Lucy. Eisteddodd Lucy, Mike, Mary, Alex a Harry ynog ngardd flaen tŷ Lucy yn cymdeithasu ac yn yfed y noson honno.

13.4.6 Sylwodd Mike fod David yn ffonio Lucy'n ddi-baid, ond nad oedd hi'n ateb ei alwadau.

13.4.7 Am 22:02, hysbysodd David ei weithle fod arno angen gadael. Anfonodd neges WhatsApp at ei gydweithiwr yn dweud fod arno angen gadael am fod ei frawd wedi cymryd gorddos o heroin. Celwydd oedd hynny. Yn ôl tystion yn y gweithle, roedd yn ymddangos yn 'normal'.

13.4.8 Rhwng 23:30 a 00:00, gadawodd Mike, Mary a Harry, ac arhosodd Alex yn y tŷ gyda Lucy. Roedd y plant yn eu gwelyau.

13.4.9 Yn ystod y noson, roedd Lucy ac Alex wedi treulio ychydig funudau ar eu pennau eu hunain yn y tŷ ac wedi cusanu. Ar ôl i bawb arall adael, safodd y ddau yn y portsh yn siarad am tua chwarter awr, gan gusanu am yr eilwaith.

13.4.10 Disgrifiodd Alex sut yr oeddent wedi penderfynu eu bod eisiau cychwyn perthynas gyda'i gilydd, a'u bod yn teimlo'n wirion ac yn hapus iawn. Wrth iddo adael, cusanodd Alex Lucy ar ei gwefus eto wrth y giât flaen. Yn ddiarwybod iddynt, roedd David yn eu gwylio.

13.4.11 Am tua 00:30 ar 26.08.2021, gadawodd David ei hun i mewn i'r tŷ. Mae union fanylion yr hyn a ddigwyddodd nesaf yn aneglur gan nad yw David wedi rhoi cyfrif am hynny. Nid oes unrhyw dystion i'r digwyddiadau wrth iddynt fynd rhagddynt, ac ni wnaeth unrhyw gymdogion weld na chlywed unrhyw beth o bwys. Mae'r dystiolaeth fforensig, fodd bynnag, yn dangos y ffyrnigrwydd a'r trais a ddilynodd.

13.4.12 Adroddodd eu plentyn hynaf fod David wedi dweud wrtho, *'Mummy had been naughty and kissed another man'*. Yna clywodd y plentyn sŵn taro a gwaeddi gan nodi mai ei fam a'i dad yn ffraeo oedd hyn. Clywodd y plentyn David yn gwaeddi, ond nid oedd yr hyn ddywedodd yn eglur. Ar ryw bwynt, aeth y plentyn i gysgu.

13.4.13 Mae'n amlwg bod David wedi llofruddio Lucy rhwng 00:30 a 06:00. Datgelodd archwiliad post mortem yn ddiweddarach fod Lucy wedi dioddef ymosodiad treisgar, di-ball gydag arf â llafn, ac y bu farw o ganlyniad i fygu, rhwystro llwybr anadlu o'r tu allan a chywasgu'r gwddf. Roedd David wedi'i thrywanu a'i thagu.

13.4.14 Rywbryd ar ôl 06:00, deffrodd David y plant a mynd â nhw o'r cyfeiriad i gyfeiriad ei fam a'i dad, yng ngherbyd Lucy.

13.4.15 Wrth gyrraedd, dywedodd David wrth ei dad ei fod wedi rhoi dwrn i Lucy a'i gadael yn cysgu ar y soffa. Disgrifiwyd ef yn crio ac yn ymddwyn yn rhyfedd. Tua dwy awr ar ôl cyrraedd cyfeiriad ei rieni, perswadiodd ei dad ef i fynd i orsaf yr heddlu. Gyrrodd John nhw i Orsaf Heddlu Blacon.

13.4.16 Ar 26.08.2021 am tua 09:15, cerddodd David i mewn i Orsaf Heddlu Blacon yng ngogledd Cymru gyda'i dad, John. Siaradodd John gyda staff y ddesg yn yr orsaf, gan nodi bod David newydd gael ffrae fawr gyda'i wraig. Roedd David yn rhy ofidus i siarad yn ôl pob golwg. Nid yw'n amlwg ai 'perfformiad' ar gyfer y gynulleidfa oedd hwn neu a oedd David wir yn ofidus.

13.4.17 Anfonwyd yr heddlu i'r cyfeiriad a roddwyd, gan ddefnyddio grym i gael mynediad. Wrth fynd i mewn i'r tŷ, canfu swyddogion Lucy wedi marw, mewn ystafell wely fechan yn gorwedd o dan bentwr o ddillad ar wely bychan, gyda llawer iawn o waed ar ei hwyneb, ei brest a'i choesau. Fe'i canfuwyd ar ei phen ei hun yn y tŷ. Am 09:38, hysbyswyd David ei fod yn cael ei arestio am lofruddiaeth.

13.4.18 Ar ôl cael rhybuddiad, ni atebodd, dim ond crio. Rhoddwyd gefynnau am David, cafodd ei chwilio, ac wrth gael ei gludo i'r ddalfa, gwaeddodd *'I'm Sorry, I'm Sorry. I fucking love her and love my boys'* ac yna, *'You don't know, you don't know what I've gone through for years'*. Rydym yn cynnwys y sylwadau hyn yma, nid i gyfiawnhau'r hyn a wnaeth David, ond i gynnig cipolwg ar ei ganfyddiad ohono'i hun fel dioddefwr.

13.4.19 **Ymchwiliad yr Heddlu:** Arestiwyd David ar amheuaeth o lofruddiaeth. Dilynwyd gweithdrefnau arferol yr heddlu, gan gynnwys chwiliadau fforensig / arddangosion / DNA a chyfweliadau wedi'u recordio ar dâp dan rybuddiad. Cafwyd gafael ar samplau o natur bersonol ac fel arall yn ddiweddarach er mwyn cynnal cymariaethau DNA a fforensig.

13.4.20 Aseswyd David gan nyrs iechyd meddwl ac ystyriwyd ei fod yn addas i'w ddal ac yn addas i'w gyfweld heb gael oedolyn priodol yn bresennol.

13.4.21 **Crynodeb o'r Cyfweliad:** Holwyd David gan yr heddlu mewn sawl cyfweliad a recordiwyd ar dâp. Ni wnaeth unrhyw gyfaddefiadau o bwys drwy gydol y cyfweliadau na rhoi unrhyw gefndir i'w perthynas. Fodd bynnag, gwnaeth un datganiad y cyfeirir ato uchod, ble dywedodd, *'You don't know what I've gone through for three years'.* Mae'r Awdur yn nodi hyn fel ymgais i'w bortreadu ei hun fel rhyw fath o 'ddioddefwr'. Byddwn yn trafod hyn yn nes ymlaen. Ni wnaeth unrhyw sylwadau ychwanegol.

**Adran 14 - Dadansoddi**

Cyflwynir yr adran hon ar ffurf dadansoddiad thematig.

### 14.1 Patrymau o gamdriniaeth ac ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol[14] gan y cyflawnwr yn erbyn y dioddefwr.

14.1.1 Nid oes unrhyw gofnodion swyddogol nac asiantaeth gan gynrychiolwyr yr asiantaethau a oedd yn rhan o'r adolygiad hwn i ddangos bod Lucy'n cael ei rheoli, ei gorfodi na'i bwlio gan David, na'i fod wedi ymosod arni, ond mae gwybodaeth a gafwyd ar ôl y ddigwyddiad yn awgrymu patrwm o ymddygiad obsesiynol, y byddwn yn ei archwilio'n fanwl.

14.1.2 Diffinnir rheolaeth drwy orfodaeth fel a ganlyn:

> "Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n amlygu ymddygiad **rheolaethol**, **gorfodaethol** neu **fygythiol**, **trais** neu **gamdriniaeth** rhwng unigolion sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid personol agos neu sy'n aelodau teulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r mathau canlynol o gam-drin: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol, emosiynol.

14.1.3 Mae rheolaeth drwy orfodaeth ac ymddygiad gorfodaethol yn fath strategol o orthrwm, sef gweithred barhaus neu batrwm o weithredoedd sy'n cynnwys ymosod, bygwth, cywilyddio a brawychu neu fath arall o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr, er mwyn meithrin ofn a hunan-amheuaeth. Bydd y sawl yr honnir ei fod yn cam-drin, sef David yn yr achos hwn, yn defnyddio tactegau fel monitro cyfathrebiad a symudiadau mewn ymgais reolaethol i lywio'r berthynas.

14.1.4 Mae ymddygiad rheolaethol yn amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud i unigolyn fod yn ddarostyngedig a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu oddi wrth ffynonellau cefnogaeth, drwy gamfanteisio ar ei adnoddau a'i alluoedd er mantais bersonol, drwy ei amddifadu o'r adnoddau y mae eu hangen i fod yn annibynnol, i wrthwynebu'r ymosodwr ac i ddianc, a drwy reoli ei ymddygiad o ddydd i ddydd. Caiff y thema hon ei harchwilio'n nes ymlaen yn yr adran Ddadansoddi.

14.1.5 Wrth archwilio digwyddiadau allweddol yn y gronoleg, mae'r awdur wedi canolbwyntio ar archwilio a chlustnodi digwyddiadau allweddol lle mae'r berthynas rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr yn nodi neu'n dangos cefndir o gam-drin, trais neu ddigwyddiadau eraill a allai awgrymu bod cam-drin domestig yn gyffredin, neu unrhyw ymddygiad cudd posib o fewn yr aelwyd, a oedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gysylltiedig â'r dioddefwr a/neu'r cyflawnwr er cyd-destun.

14.1.6 Mae'r dadansoddiad yn clustnodi sawl digwyddiad perthnasol (na hysbyswyd yr heddlu amdanynt) sydd i'w gweld yn rhagarwain at y digwyddiadau trychinebus. Mae'r rhain yn cynnwys trais blaenorol y cyflawnwr mewn 2 ymosodiad, ei ymddygiad rhywiol a rheolaethol tuag at Lucy, a gwybodaeth gan yr ysgol.

---

[14]Rheolaeth drwy orfodaeth yw: "Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n amlygu ymddygiad **rheolaethol**, **gorfodaethol** neu **fygythiol**, **trais** neu **gamdriniaeth** rhwng unigolion sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid personol agos neu sy'n aelodau teulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r mathau canlynol o gam-drin: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol, emosiynol.

14.1.7 Mae goroeswyr cam-drin domestig yn aml yn dweud eu bod yn poeni na fyddai unrhyw un yn eu credu pe baent yn sôn am yr hyn sy'n digwydd. Gall ofni datgelu ymestyn i bryderon eraill fel datgelu i aelodau teulu eraill, yn ogystal â bod ofn rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol.

14.1.8 Mae'n amlwg o'r hyn y mae ei theulu agos yn ei ddweud ei bod wedi methu â datgelu arwyddocâd ei heriau parhaus gyda David; ni ddywedodd wrth unrhyw un felly ni chafwyd unrhyw gyfle i ymyrryd nac asesu'r risg.

14.1.9 Mae yna nifer o ddioddefwyr cam-drin domestig yng Nghymru nad ydynt yn dod i sylw'r gwasanaethau, a hynny'n syml am nad ydynt yn sylweddoli eu bod yn cael eu cam-drin, neu am nad yw'r unigolion o'u hamgylch yn sylweddoli hynny. Nid yw'r rhan fwyaf o berthnasoedd peryglus o gamdriniol yn cynnwys trais corfforol tan yn llawer diweddarach. Maent yn cychwyn gyda system o reolaeth sy'n llechwraidd ac a all fynd mor gynhenid fel ei bod yn amhosib dianc. Gallai'r ymddygiad ystrywgar hwn ymwneud â rheoli'r dillad maent yn eu gwisgo, y bobl maent yn eu gweld, y lleoedd maent yn mynd iddynt. Roedd yr ymddygiad hwn yn bresennol ym mherthynas Lucy.

14.1.10 Neu gallai fod yn llawer mwy cudd, a chychwyn gyda'r hyn maent yn ei wylio ar y teledu, amser prydau bwyd a faint o fwyd maent yn ei gael. Mae'r math hwn o reolaeth wedi'i seilio ar wrywdod gwenwynig a'r gred fod gan y gwryw'r 'hawl' i osod rheolau ar y teulu. Gwyddom fod Lucy eisiau cadw'r uned deuluol ynghyd a'i bod wedi dweud nad oedd eisiau i'w bechgyn gael eu heffeithio. Golyga hyn ei bod wedi aros yn y berthynas yn llawer hirach nag yr oedd eisiau.

14.1.11 Mae gweithwyr proffesiynol wedi cydnabod 'rheolaeth drwy orfodaeth' o fewn perthnasoedd partneriaid agos ers gwaith Evan Stark bron i 20 mlynedd yn ôl, ac ers 2015, mae hyn wedi cael ei gydnabod mewn cyfraith. Fodd bynnag, mae'r math hwn o reolaeth gaethiwus, yn gorfodi partner i newid eu hymddygiad a defnyddio'r plant a'r teulu estynedig o fewn y 'rheolaeth', wastad wedi bod yn rhan beryglus o berthnasoedd camdriniol.

14.1.12 Dengys gwaith yr Athro Jane Monckton-Smith yn ei llyfr, *"In Control, Dangerous Relationships and How They End in Murder"* a gyhoeddwyd yn 2021, nad yw cydymffurfio â rheolau y mae'r cyflawnwr yn eu gosod yn aml yn teimlo fel rheolaeth i gychwyn, gan y gall dreiddio i berthynas yn ddistaw bach bron. Siaradodd yr Awdur â'r Athro Monckton-Smith am yr achos hwn i sicrhau dealltwriaeth lawn o Linell Amser y Lladdiad.

14.1.13 Yn aml, disgwylir i ddioddefwyr perthnasoedd gorfodaethol a rheolaethol ddangos eu 'teyrngarwch' i'w partner a gallai hyn arwain at eu hynysu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau. I nifer o ferched, golyga hyn guddio llawer o'r ymddygiad oddi wrth eu teulu, er mwyn ceisio peidio â chreu rhwyg yn y berthynas.

14.1.14 I eraill, mae'n golygu gwneud yn fach o'r cam-drin fel nad yw'r rhai sydd agosaf atynt yn pryderu. Yn anffodus, mae rhai teuluoedd yn derbyn y cam-drin fel math o 'oruchafiaeth gwrywaidd' y maent yn teimlo hawl iddo. Gallai hyn fod oherwydd ffactorau diwylliannol, crefyddol neu hanesyddol, ond mewn nifer o achosion,

derbynnir lefel o reolaeth a bod merched yn eilradd i'w partner gwrywaidd o fewn teuluoedd ers cenedlaethau.

14.1.15 Gwirionedd y sefyllfa hon yw nad yw'r ffrindiau na'r aelodau teulu'n cyd-gynllwynio gyda'r partner camdriniol, ond yn hytrach eu bod ynghlwm yn y we o ymddygiad ystrywgar. Nid ydynt yn herio'r camdriniaeth am eu bod yn gwybod y gallai arwain at gosbi'r dioddefwr a'u gwahanu ymhellach oddi wrth eu hanwyliaid.

14.1.16 Mae rhai unigolion sy'n cam-drin hefyd yn defnyddio'r plant i reoli ymhellach, naill ai'n bychanu'r fam yn ddi-baid o flaen y plant a'u hannog i wneud yr un fath, neu hyd yn oed yn bygwth niweidio'r plant os na fydd y dioddefwr yn cydymffurfio â'i orchmynion. Mae tystion wedi darparu tystiolaeth sylweddol bod David yn defnyddio'r plant fel hyn, ac y byddai'r bechgyn yn cael eu 'hanfon' at eu mam i'w pherswadio i adael digwyddiadau cymdeithasol ac yn smalio bod wedi cynhyrfu os oedd yn gwrthod. Mae teuluoedd yn aml yn gymaint o ran o'r cylch cam-drin fel y gall deimlo'n amhosib dianc, ac mae'n haws cydymffurfio yn y pen draw.

14.1.17 Mae Ymddygiad Rheolaethol a Gorfodaethol yn aml yn rhagflaenu lladdiadau domestig. Mae yna nifer o ddangosyddion y mae gweithwyr proffesiynol yn eu cydnabod fel dangosyddion rheolaeth drwy orfodaeth, a nodwyd nifer o'r rhain yn dilyn yr adolygiad hwn yn achos Lucy a David. Disgrifir rhai esiamplau o'r ymddygiad mwyaf arwyddocaol isod:

### 14.2 Cywilydd a Hunan-amheuaeth (seicolegol)

- Ni wyddom i ba raddau yr achosodd David i Lucy amau ei hun, os o gwbl. Mae Mary'n disgrifio'r cywilydd a deimlai Lucy o fod wedi cael ei threisio yn y nos pan oedd yn cysgu. Dywedodd Lucy ei bod teimlo'n sâl am fod David wedi dweud wrthi ei fod wedi cael rhyw gyda hi, ond nid oedd yn sylweddoli bod hyn yn drosedd yn ei herbyn. Mae hyn yn dangos ymdeimlad o hawl David.
- Roedd Lucy hefyd wedi datgelu ei bod wedi beichiogi gyda'i phedwerydd plentyn, ond nad oedd yn gwybod sut yr oedd wedi beichiogi gyda David. Nid oedd wedi cydsynio.
- Mae yna nifer sylweddol o dystion i'r galwadau ffôn a'r negeseuon testun di-baid. Noson y llofruddiaeth, mae nifer o dystion yn y dafarn yn disgrifio ymddygiad rheolaethol David, yn ffonio Lucy dro ar ôl tro ar ei ffôn symudol.
- Disgrifia Leah sut yr oedd David yn defnyddio'r plant, a fyddai wedi achosi niwed seicolegol.
- Roedd David yn dweud wrth ei deulu dro ar ôl tro bod Lucy wedi meddwi, gan godi cywilydd arni drwy ei 'labelu' yn fam wael oedd yn methu gofalu am ei phlant ei hun.
- Roed David hefyd yn aml yn sôn am ei amheuon di-sail bod Lucy'n bod yn anffyddlon iddo, gan ei labelu'n anfoesol.

### 14.3 Ymosodiadau (corfforol)

- Er nad oedd ganddo hanes maith o drais, mae yna ddwy enghraifft o David yn bod yn dreisgar (y soniwyd amdanynt yn flaenorol), sy'n dangos ei dueddiad i fod yn dreisgar.

Nid oedd yn dreisgar fel mater o drefn, ond dengys y ffyrnigrwydd a amlygodd yn ei ymosodiad gwaedlyd ar Lucy ei fod yn beryglus, ond nid oedd yr arwyddion yn amlwg.

- Nid oes unrhyw dystiolaeth bod Lucy wedi dioddef unrhyw ymosodiad corfforol 'traddodiadol' gan David cyn y llofruddiaeth. Nid yw hynny'n golygu nad oedd hyn wedi digwydd. Mae ei modryb, Liz, yn sôn am ddigwyddiad lle gafaelodd David yn Lucy a'i thaflu ar y gwely.
- Fodd bynnag, datgelwyd y weithred gorfforol o 'Drais' yn ystod ymchwiliad yr Heddlu. Os ydych chi'n cysgu, ni allwch roi eich cydsyniad. Cyfaddefodd David i'r digwyddiadau hyn, gan fethu â dangos unrhyw ddealltwriaeth o'i ymddygiad troseddol.
- Roedd Lucy hefyd wedi datgelu'r trais i'w modryb, gan ddweud nad oedd yn cofio beichiogi gyda'i mab ieuengaf. Byddai David yn gwthio alcohol ar Lucy ac yna'n dweud yn gellweirus, *'I'll get a bit tonight'*.
- Mae'r ysgol yn nodi bod y plant wedi dweud bod yna ffraeo'n digwydd gartref, ond ni soniwyd am unrhyw beth o natur gorfforol. Nid oedd Lucy wedi dangos unrhyw anafiadau gweledol.

### 14.4 Gweithgarwch monitro (seicolegol)

- Mae yna thema gyson drwy bob un o ddatganiadau'r tystion yn yr achos hwn. Mae sawl tyst yn disgrifio David yn ffonio Lucy yn gyson ac yn ddi-baid, i weld ble'r oedd hi a gyda phwy.
- Roedd yn 'ysbïo' arni i bob pwrpas y noson y cafodd ei llofruddio, drwy ei gwylio gyda'i ffrind, Alex.

### 14.5 Ynysu oddi wrth ei system gefnogaeth

- Roedd gan Lucy gylch eang o ffrindiau benywaidd, ac maent yn disgrifio David fel bod yn genfigennus ac yn rheolaethol. Roedd yn ceisio ei hatal rhag treulio amser gyda'r ffrindiau hynny dro ar ôl tro, mewn ymgais i ynysu Lucy a'i chadw'n ddibynnol arno.
- Byddai'n mynd â'i char i'w hatal rhag ei ddefnyddio.
- Mae naratif diddorol yn ymddangos pan mae David yn ceisio defnyddio iaith i'w bortreadu ei hun fel dioddefwr. Roedd datganiadau fel, *'You don't know, you don't know what I've gone through for years'*, a'r straeon negyddol y byddai'n eu hadrodd wrth ei deulu am Lucy i gyd yn ymgais gan David i honni ei fod wedi cael ei gythruddo.

### 14.6 Ymddygiad rheolaethol – Rheolaeth ariannol

- Disgrifiodd ei modryb, Liz, sut roedd David yn ystrywgar iawn ar adegau ac yn ceisio rheoli arian y teulu. Roedd eisiau i Lucy fod yn wraig tŷ iddo ac roedd ei safbwyntiau'n hen ffasiwn.
- Yn eu priodas ym mis Mawrth 2019, clywodd Lucy David yn dweud, *'She's mine now'*.
- Ni roddwyd gwybod am yr holl ymddygiad rheolaethol hwn gan David tuag at Lucy ac ni chafodd ei ddatgelu i asiantaethau tan ar ôl y llofruddiaeth. Ni wnaed unrhyw adroddiadau anhysbys i'r heddlu ac ni wnaed unrhyw adroddiadau trydydd person gan y cymdogion yn amlygu unrhyw broblemau.

## 14.7 Llinell Amser yr ymchwil i'r Lladdiad Domestig

14.7.1 Yn ei hymchwil, mae'r arbenigwr enwog ym maes Lladdiadau Domestig, yr Athro Jane Monckton-Smith, yn nodi'r *Llinell Amser 8 cam ar gyfer Lladdiadau Cam-drin Domestig[15], sy'n cynnwys nifer o'r enghreifftiau o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol a ddangosodd David yn yr achos hwn.

**14.7.2 Hanes cyn y berthynas o stelcio neu gam-drin gan y cyflawnwr:**

- Nid oes gan unrhyw asiantaeth gofnod o wybodaeth am achosion blaenorol o stelcio neu gam-drin. Nid oes gwybodaeth am ei berthynas flaenorol ac ni chyfwelwyd ei gyn bartner fel rhan o'r adolygiad hwn.
- Fodd bynnag, mae David yn siarad yn ddilornus am ei gyn bartner gyda Leah. Wrth siarad am ei ferch ifanc, mae'n nodi y bydd yn *'…slag just like her mother'*. Byddai'r iaith feirniadol ac ymfflamychol hon wrth ddisgrifio mam ei blentyn yn arwydd o gyflwr meddyliol camdriniol.

**17.7.3 Mae'r rhamant yn datblygu'n gyflym yn berthynas ddwys:**

- Bu i Lucy a David gyfarfod ar noson allan, ac ar ôl carwriaeth un noson, beichiogodd Lucy.
- O fewn wythnosau o ddarganfod bod Lucy wedi cael ei blentyn, mae David yn dod â'i berthynas gyda'i bartner (mam ei ferch newydd) i ben ac yn cychwyn ar berthynas gyda Lucy, ac maent yn beichiogi'n gyflym gyda'u hail blentyn. Mae Lucy i'w gweld yn dod yn 'obsesiwn' ganddo ar y pwynt hwn.

**14.7.4 Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn dod yn rhan flaenllaw o'u perthynas.**

- O fewn cyfnod byr, mae David i bob pwrpas yn stelcio symudiadau a chysylltiadau Lucy.
- Mae tystion a ffrindiau'n disgrifio amrywiaeth o ymddygiad sy'n achosi pryder, gan gynnwys dweud wrth Lucy beth i'w wisgo, gwaeddi arni o flaen pobl, defnyddio'r plant fel 'arfau' i fynnu ei sylw.
- Bygythiodd David ei ladd ei hun, sy'n ymddygiad sy'n destun pryder a ddefnyddir i reoli pobl.
- Disgrifiodd Liz sut roedd Lucy yn aml yn cyd-fynd â'r hyn roedd David ei eisiau er mwyn ei gadw'n hapus. Un enghraifft o hyn yw y byddai ef yn gwneud apwyntiad iddi mewn stiwdio tatŵs, a hithau'n dewis ei thatŵ ei hun ar ôl cyrraedd.
- Roedd digwyddiad a gofnodwyd pan aeth David â'r plant o dŷ mam Lucy i'w weithle yn hwyr yn y nos (23:40), yn enghraifft o'i allu i reoli mynediad at y plant a dangos ei oruchafiaeth yn y berthynas.
- Mae yna dystiolaeth o'r iaith obsesiynol y mae'n ei defnyddio gydag eraill, *'if I can't have her no-one will'* ac *'If she finishes with me, I'll fucking kill her'*.
- Ar ddiwrnod y llofruddiaeth, dywedodd David wrth Lucy ei fod wedi cysgu gyda rhywun arall am ei bod hi wedi gwneud hynny. Gwadodd Lucy wneud hynny, ac yna dywedodd David mai cellwair oedd o.

[15] Monckton-Smith, Jane (2021) *In Control: Dangerous Relationships and How They End in Murder.* Bloomsbury

**14.7.5 Mae sbardun yn bygwth rheolaeth y cyflawnwr - er enghraifft, mae'r berthynas yn dod i ben neu mae'r cyflawnwr yn mynd i drafferthion ariannol:**

- Roedd yna sawl sbardun yn y cyfnod a arweiniodd at y llofruddiaeth trychinebus hwn. Datgelodd tad David fod gan David bryderon ariannol sylweddol (dyled o £38,000) a'i fod wedi talu setliad o £22,000, ond roedd pryderon ariannol yn pwyso'n drwm arno.
- Dywedodd wrth ei dad ei fod yn cymryd tabledi ar gyfer gorbryder ac iselder. Nid oes unrhyw dystiolaeth feddygol i gefnogi hyn.
- Er gwaethaf y ffaith eu bod wedi gwahanu ar sawl achlysur, daeth Lucy a'r berthynas i ben o'r diwedd yn yr wythnos cyn y llofruddiaeth, gan egluro ei bod wedi disgyn allan o gariad gydag ef ac nad oedd ganddi deimladau tuag ato.
- Credai David ei fod wedi canfod bod Lucy mewn perthynas newydd, ac roedd wedi sôn am ei amheuon wrth sawl person.
- Er ei fod wedi ei hannog i gael perthynas rywiol deirffordd yn y gorffennol, ac wedi dweud wrthi am gysgu gyda rhywun arall er mwyn cael hynny allan o'i system, roedd realiti diwedd y berthynas yn peri gofid iddo.

**14.7.6 Gwaethygiad - cynnydd yn nwyster neu amlder tactegau rheoli'r partner, megis stelcio neu fygwth hunanladdiad:**

- Bu i David fygwth hunanladdiad o leiaf unwaith. Dywedodd Mike fod David wedi bygwth hunanladdiad wrth Lucy yn y mis Medi, a'i fod wedi mynd i'w dŷ a'i ganfod gyda rym Captain Morgan, cyllell cegin a thabledi, ac yn dweud *'I can't live without her'*.
- Yn ystod yr wythnosau cyn y llofruddiaeth, gwaethygodd ymdrechion David i reoli Lucy yn ddramatig; roedd yn ffonio ei ffôn symudol yn ddi-baid ac yn ei gwylio.

**14.7.7 Mae yna newid ym meddylfryd y cyflawnwr - mae'n dewis symud ymlaen, naill ai drwy ddial neu laddiad:**

- Dywedodd David wrth ei rieni dro ar ôl tro fod Lucy yn anffyddlon, ei bod yn yfed gormod a'i fod ef mewn trafferthion ariannol. Mae'n datgelu ei hanffyddlondeb honedig. Ni chyfeirir at y sylwadau hyn ganddo er mwyn beio'r dioddefwr mewn unrhyw ffordd, ond yn hytrach i ddangos ei feddylfryd a'i ymgais i lywio barn ei deulu gyda'i naratif ei hun.
- Penderfynodd symud ymlaen drwy ei lladd, gan sylweddoli na fyddai byth yn ailgynnau'r berthynas ag ef. Cadarnhawyd ei amheuon am bartner newydd pan welodd Lucy'n cofleidio dyn arall (fe ddywedodd ef eu bod yn cusanu)**.**

**14.7.8 Cynllunio - gallai'r cyflawnwr fynd i brynu arfau neu chwilio am gyfleoedd i gael y dioddefwr ar ei ben ei hun:**

- Noson y llofruddiaeth, tarodd David ar yr amgylchedd perffaith i gymryd rheolaeth. Gwyddai y byddai Lucy gartref ar ei phen ei hun gyda'r plant, a dywedodd gelwydd wrth ei gyflogwyr er mwyn gallu gadel ei waith.
- Roedd yn rhesymegol ac roedd ei benderfyniad i adael ei waith yn dangos ei fod yn bwriadu mynd i weld Lucy a gwneud niwed iddi. Nid gweithred ddigymell oedd hon.
- Aeth i'w chartref, ac er na wyddom a adawodd Lucy ef i mewn i'r tŷ neu a ddefnyddiodd David ei allwedd, roedd yn gwybod ei bod ar ei phen ei hun ac y gallai fynd i mewn i'r eiddo.

**14.7.9 Lladdiad - mae'r cyflawnwr yn lladd ei bartner ac o bosib yn anafu eraill, fel plant y dioddefwr:**

- Mae David yn lladd Lucy yn y cartref teuluol. Mae'n defnyddio grym anwaraidd yn ei herbyn.
- Nid yw'n anafu'r plant, ond mae'n mynd â nhw i dŷ ei rieni.

### 14.8 Rheolaeth drwy orfodaeth sy'n gysylltiedig â pheidio datgelu

14.8.1 Er bod tystiolaeth amlwg bellach o ymddygiad camdriniol, nid yw'n eglur a oedd Lucy'n bersonol yn ymwybodol i ba raddau yr oedd **hyn** yn risg iddi. Mae nifer o dystion yn dweud nad oedd yn dangos ofn.

14.8.2 Roedd Lucy wedi dweud ar y noson y bu farw ei bod yn amau y byddai David yn dod i'w thŷ. Gwnaeth y **datganiad** hwn i'w ffrindiau: *'he wouldn't do anything with the kids here'*.

14.8.3 Nodwyd mewn Adolygiadau Lladdiad Domestig eraill bod merched yn tueddu i roi'r gorau i **roi gwybod am** gam-drin domestig pan mae yna blant yn y sefyllfa, am eu bod ofn y bydd rhywun yn mynd â'u plant oddi arnynt a'u rhoi mewn gofal. Er nad oes unrhyw dystiolaeth benodol o hyn yma, roedd yn berthnasol cynnal y drafodaeth.

### 14.9 Cael Gafael ar Wybodaeth a Chymorth

14.9.1 Ymddengys na wnaeth Lucy unrhyw ymdrech i geisio cymorth proffesiynol am unrhyw gam-drin domestig nac **ymddygiad** gorfodaethol. Er fod Lucy wedi disgrifio ymddygiad David fel bod yn ddiflas, ni awgrymodd ei bod yn wynebu unrhyw fygythiad na risg wrth ei ffrindiau na'i theulu.

14.9.2 O'r wybodaeth ARhU gyfyngedig, rwy'n fodlon y byddai pob cymorth oedd ar gael wedi cael ei darparu gan y nifer o **weithwyr proffesiynol** y gallai fod wedi cysylltu â nhw. Mae yna dystiolaeth sylweddol o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cynnig fframweithiau cymorth ar gyfer cam-drin domestig, ac o ganllawiau a chymorth priodol a gynigir i'r cyhoedd.

14.9.3 Drwy gydol yr adolygiad hwn, nid yw wedi bod yn bosib canfod a wnaeth Lucy geisio cymorth ar-lein am unrhyw bryderon CD a allai fod ganddi, ond mewn ymgais i weld a ddylid datblygu mwy o gymorth lleol yn Sir y Fflint, bu i'r panel drafod ac ystyried pa mor hawdd oedd cael gafael ar wybodaeth a allai fod wedi helpu Lucy pe bai wedi dewis chwilio amdani. Aeth chwiliad arferol ar y rhyngrwyd am 'Gam-drin Domestig yn Sir y Fflint' â'r awdur at nifer o ddolenni lle'r oedd digonedd o gyngor ar gael i ddioddefwyr a hysbyswyr trydydd parti, gyda llinellau cymorth 24 awr a gwybodaeth am sut i gael cymorth. Roedd y rhain yn cynnwys dolenni i Gymorth Lleol:

- Byw Heb Ofn: Llinell gymorth ar gyfer dioddefwyr trais rhywiol a cham-drin domestig yng Nghymru.
- Cymorth i Ferched Cymru: Rhoi merched a phlant yn gyntaf.
- Canolfannau Merched Gogledd Cymru: Cefnogi, annog a galluogi merched i gymryd rheolaeth dros eu bywydau.

- Relate Cymru: Cyngor ar berthnasoedd, gan gynnwys cymorth ar gyfer trais domestig.
- Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru: Amddiffyn oedolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- BAWSO: Cymorth i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Cymorth ar gyfer cam-drin domestig, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu merched, trais ar sail anrhydedd, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern.
- Prosiect Dyn Cymru Ddiogelach: Yn gweithio ledled Cymru i helpu dynion sy’n dioddef cam-drin domestig.
- Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru: Cymorth ar draws y rhanbarth.
- Hafan Cymru: Yn cynnig cymorth i bobl, gan gynnwys pobl mewn perthnasoedd camdriniol.

14.9.4 Mae nifer o’r grwpiau uchod yn arddangos gwybodaeth am y gwasanaethau y maent yn eu cynnig mewn meddygfeydd teulu, ysbytai, siopau, tafarndai a mannau cyhoeddus eraill. Ni wyddom a oedd Lucy wedi gwrando erioed ar ymgyrchoedd hysbysebu ar y radio neu’r teledu am gam-drin domestig neu ymddygiad gorfodaethol.

### 14.10 Cyfraith Clare

14.10.1 Mae’r cynllun hwn yn galluogi’r heddlu i ryddhau gwybodaeth am unrhyw hanes blaenorol o drais neu gamdriniaeth a allai fod yn gysylltiedig ag unrhyw berson.

14.10.2 Dan Gyfraith Clare gallwch:

- wneud cais am wybodaeth am eich partner presennol neu’ch cyn bartner am eich bod yn poeni y gallai fod ganddynt hanes o gam-drin a’u bod yn risg i chi.
- gwneud cais am wybodaeth am bartner neu gyn bartner ffrind neu berthynas am eich bod yn poeni y gallent fod yn wynebu risg.

14.10.3 Pe bai Lucy wedi ceisio manteisio ar y gyfraith hon, ni fyddai gan unrhyw asiantaeth ddigon o wybodaeth mewn perthynas â David a allai fod wedi cael ei datgelu iddi.

### 14.11 Datgeliad Trydydd Parti

14.11.1 Er bod nifer sylweddol o ddigwyddiadau’n dangos ymddygiad gorfodaethol, ymddengys o wybodaeth a gafwyd gan yr asiantaethau a oedd yn rhan o’r adolygiad hwn na wnaed unrhyw ddatgeliadau trydydd parti i unrhyw asiantaeth. Felly nid yw’n ymarferol nodi’r hyn a allai fod wedi newid yn yr achos hwn.

14.11.2 Mae gan yr heddlu systemau ar waith ar gyfer gwneud adroddiadau anhysbys a thrydydd parti.

## 14.12 COVID

14.12.1 Mae cyfnod yr Adolygiad Lladdiad Domestig yn cychwyn pan gychwynnodd y berthynas (Awst 2011) hyd nes y llofruddiwyd Lucy ym mis Awst 2021[16]**.** Byddai cyfnod COVID, gan gynnwys y cyfnod clo, wedi bod yn berthnasol i unrhyw gyswllt ag asiantaethau, pe bai cyswllt wedi digwydd, a gallai hefyd fod wedi cuddio dirywiad ei pherthynas â David. Gwyddom fod Lucy'n addysgu'r pedwar o blant gartref yn ystod y cyfnod hwn, er na chadarnhawyd unrhyw wybodaeth benodol yn ystod yr adolygiad i ddynodi bod y berthynas wedi dirywio fel ffaith. Roedd y straen a achoswyd gan addysgu gartref yn amlwg o gofnodion yr ysgol, sy'n dangos nad oedd y plant yn cwblhau'r gwaith ar-lein yn ystod y cyfnod clo. Dywedodd Lucy ei bod yn cael trafferth cael y plant i wneud y gwaith a gweithio ei hun ar yr un pryd. Cymrodd Gweithiwr Cymdeithasol Addysg (GCA) yr Ysgol gamau dilynol mewn perthynas â hyn, yn unol â chanllawiau'r Cyngor yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, ar ôl ymweliad gan y GCA, roedd y plant yn cwblhau mwy o waith ac ni chododd yr ysgol unrhyw bryderon pellach. Trafodwyd effaith COVID yn oddrychol gan y panel. Barn y panel oedd y byddai'r teulu hwn hefyd wedi teimlo'r pwysau digynsail a deimlodd nifer o rieni yn ystod y cyfnod clo. Cwblhawyd nodyn briffio gan Gydlynydd Cynhwysiant ysgol gynradd y plant. Gan nad oedd y teulu'n bodloni'r meini prawf i gael darpariaeth gofal plant yn yr ysgol (dim ond os oedd y rhieni'n weithwyr allweddol y caniatawyd hyn), cafodd y plant waith i'w wneud gartref drwy blatfformau cyfathrebu/cyfryngau cymdeithasol yr ysgol yn ystod y cyfnodau clo.

**14.12.2** ***'Lockdown means that people who were already controlling and abusing their partners are now even more controlling*** and ***volatile. The lockdown has not created abuse, it has just made it more visible and dangerous'*** **- Dr Jane Monckton Smith.**

**14.12.3** Oherwydd rheolau COVID, ni fyddai Lucy, fel y rhan fwyaf o'r wlad, wedi gallu cymysgu'n hawdd yn y gymuned. Felly nid oedd y panel yn gallu canfod a fu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol rhwng David a Lucy yn ystod y cyfnod hwn, ac nid oes unrhyw wybodaeth gan asiantaethau na thystion i gefnogi damcaniaeth o CD yn y cartref.

## Adran 15 – Casgliadau

15.1 Wrth grynhoi'r hyn sy'n hysbys, ystyriodd y panel y canlynol:

**A oedd aelodau'r teulu, ffrindiau neu gydweithwyr yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad camdriniol gan y cyflawnwr honedig tuag at y dioddefwr, cyn y dynladdiad.**

- Mae yna nifer o adroddiadau gan amrywiaeth o ffrindiau ac aelodau teulu sy'n dangos bod teulu a ffrindiau'n ymwybodol o'r ymddygiad camdriniol. Mae'n amlwg o'r adroddiadau na chafodd yr ymddygiad ei adnabod fel ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol. Ni roddwyd gwybod i'r heddlu am unrhyw ymddygiad. Caiff hyn ei ystyried wrth lunio argymhellion.

**A wynebodd y dioddefwr neu ei theulu/ei ffrindiau/ei chydweithwyr unrhyw rwystrau wrth geisio rhoi gwybod am unrhyw gamdriniaeth yn Sir y Fflint neu tu hwnt, gan**

[16]Gweler yr Esboniad yn Atodiad 3.

**gynnwys a oedd hi'n ymwybodol o sut i roi gwybod am gam-drin domestig pe bai'n dymuno gwneud hynny.**

- Ni chafwyd unrhyw wybodaeth yn ystod yr adolygiad hwn i dystio y wynebwyd unrhyw rwystrau wrth adrodd am gamdriniaeth. Ymddengys bod Lucy a'i ffrindiau a'i theulu wedi trafod materion yn ymwneud â chamdriniaeth, ond na wnaethant geisio cael gafael ar wasanaethu.

**A fethwyd unrhyw gyfleoedd i wneud 'ymholiadau arferol' gan weithwyr proffesiynol am unrhyw gam-drin domestig tuag at y dioddefwr.**

- O'r wybodaeth a gasglwyd gan asiantaethau a fu'n rhan o'r adolygiad hwn, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfleoedd wedi'u methu. Er y cafodd Lucy apwyntiadau meddygol arferol, ni ddatgelodd ymholiadau arferol unrhyw bryder.
- Tynnwyd sylw at 'ffraeo' yn y cartref yng nghofnodion yr ysgol, ond nid oedd unrhyw wybodaeth amlwg yn nodi bod cam-drin domestig yn digwydd. Ni ystyriwyd unrhyw wybodaeth a rannwyd.

**A fethwyd cyfleoedd i asiantaethau ymyrryd mewn perthynas â cham-drin domestig o ran y dioddefwr neu'r cyflawnwr honedig.**

- O edrych ar yr asiantaethau a fu'n rhan o'r adolygiad hwn, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfleoedd wedi codi iddynt ymyrryd, naill ai gyda'r dioddefwr na'r cyflawnwr. Nid oes unrhyw wybodaeth fod Lucy wedi datgelu CD i unrhyw asiantaeth, nac wedi ceisio cyngor nac arweiniad gan yr asiantaethau hynny nad oeddent yn rhan o'r adolygiad hwn.

15.2 Mae'r Panel Adolygu wedi llwyddo i gael rhyw fath o ddarlun o Lucy fel person, gan gynnwys fel mam ac anwylyn, o'r adroddiadau a'r datganiadau. Mae marwolaeth Lucy yn drychineb i'w theulu ac yn fwy penodol, i'w pedwar mab. Mae'r Panel Adolygu wedi gallu cael gwybodaeth gan deulu, ffrindiau a chymdogion Lucy sy'n portreadu merch ifanc a dargedwyd, a ddefnyddiwyd ac a reolwyd gan David, a oedd yn obsesiynol, yn genfigennus ac yn glynu'n ormodol wrthi.

15.3 Gweithredodd y Panel Adolygu ar y wybodaeth fod David yn gyfrifol am laddiad Lucy. Er ei fod wedi dweud y canlynol yn yr orsaf heddlu: *'I'm Sorry, I'm Sorry. I fucking love her and love my boys'* ac yna, *'You don't know, you don't know what I've gone through for years'*, ni wnaeth unrhyw sylwadau yn ystod cyfweliad yr heddlu. Ni roddodd unrhyw esboniad am ei weithredoedd yn y llys. Gwadodd lofruddiaeth. Ni fynegodd unrhyw edifeirwch i'w theulu.

15.4 Roedd yr Awdur wedi trefnu i fynd i weld David gyda'r Gwasanaeth Carchardai. Dywedodd ei fod yn fodlon cyfarfod a chynnig ei safbwynt i helpu gyda'r adolygiad hwn. Gwnaed y trefniadau a rhoddwyd gwybod iddo beth oedd pwrpas yr Adolygiad. Cytunodd David i'n gweld ni, gan gynnig syniad o'r hyn y gallai ei ddweud. I grynhoi, dywedodd y Swyddog Carchar, *'he (David) would be happy to see you. He wants to let you know what Lucy did in the months before. She effectively gaslighted him. In his opinion, she was cheating*

*on him and ruined his life'.* Nid dyma'r hyn a ddywedodd wrth yr heddlu, ac mae'n amlwg ei fod yn dweud hyn bellach er mwyn ceisio cyfiawnhau ei weithredoedd. Nid oes unrhyw beth i gefnogi'r naratif hwn nac unrhyw ffynhonnell arall i'w ategu. Mae'n dystiolaeth o'i ymgais bellach i lywio'r naratif a'i gyflwyno ei hun fel dioddefwr.

15.5 Ddiwrnod y cyfweliad arfaethedig, gwrthododd David adael ei gell ac ni chynigiodd unrhyw reswm am hynny. Ni cheisiwyd cysylltu ag ef wedyn. Dengys y ffaith ei fod wedi gwrthod cwrdd â'r Awdur ddyhead David i 'reoli' y naratif.

15.6 Ffeithiau sydd gan y panel yn yr adolygiad hwn, nid ensyniadau. Roedd David wedi cael gwybod bod y berthynas drosodd. Nid oedd Lucy yn ei garu mwyach. Ddiwrnod y llofruddiaeth, siaradodd â Liz, modryb Lucy a dweud, *'I've got issues that I need to get over'*, gan ddweud ei fod am wneud popeth o fewn ei allu i'w hennill yn ôl.

15.7 Aeth Lucy i'r dafarn gyda'i ffrindiau. Roedd David yn amau ei bod yn gweld rhywun newydd.

15.8 Gadawodd David ei waith noson y llofruddiaeth, gan ddweud celwydd wrth ei gyflogwyr fod ei frawd yn wael. Mae'n dweud ei fod wedi gweld Lucy'n cofleidio dyn arall. Mae Alex yn cadarnhau hyn. Yna dywedodd David wrth ei fab: *'mummy had done something really bad and kissed another man'.* Roedd gweld Lucy gydag Alex wedi cadarnhau iddo bod y berthynas drosodd o'r diwedd.

15.9 Yna llofruddiodd David Lucy. Nid gweithred angerddol oedd hon. Roedd wedi bwriadu a chynllunio'r weithred hon, ac aseswyd hynny gan reithgor a'i cafodd yn euog o lofruddiaeth. Roedd David wedi sôn y diwrnod hwnnw am ei ofid. Roedd yn gwybod ers dros wythnos bod y berthynas drosodd. Roedd Lucy wedi egluro iddo nad oedd hi ei eisiau rhagor. Fe'i gwrthododd, ac roedd David yn gwybod ei bod wedi'i adael 'yn emosiynol'. Drwy adael ei waith yn gynnar, mae yna fwriad amlwg i weld Lucy ar ei phen ei hun. Roedd wedi dweud dro ar ôl tro, *'if I can't have her, no-one could'*. Cyflawnodd y bwriad hwnnw. Nid gweithred ddigymell oedd hon. Safodd a'i gwylio gyda dyn arall. Yn hytrach na herio'r dyn hwnnw, arhosodd nes y gallai fynd i'w thŷ heb i neb ei weld.

15.10 Nododd y Panel Adolygu nifer o ffactorau o wahanol ffynonellau sy'n sôn am yr amgylchiadau cyn marwolaeth Lucy. Mae'r rhain yn cynnwys ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol na chawsant eu cofnodi cyn hyn, ond eto sydd i gyd yn ddangosyddion risg ar gyfer trais a cham-drin domestig, yn ogystal â lladdiad partner agos.

15.11 Mae'r Adolygiad hwn wedi bod yn gymhleth yn sgil y wybodaeth gyfyngedig oedd ar gael gan asiantaethau am y berthynas rhwng Lucy a David cyn ei marwolaeth, ac yn sgil bod yn eithaf 'cudd' oherwydd effaith rheolau clo COVID. Nid oes unrhyw wybodaeth benodol sy'n dangos dirywiad eu perthynas yn ystod y cyfnod clo, ond byddai Lucy wedi bod dan lawer o bwysau o fod gartref gyda 4 o blant a David.

15.12 Mae Monckton Smith (tud xvii 2021) yn nodi bod llofruddion yn dilyn patrymau o reolaeth drwy orfodaeth. Gellir adnabod patrwm ehangach o gam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol ac ariannol gan David tuag at Lucy. O'u hystyried ar y cyd, mae'r wybodaeth

sydd bellach yn hysbys, yn dilyn cyfweliadau'r heddlu a datganiadau teulu a ffrindiau, yn portreadu cyd-destun gwahanol iawn o'r risg a'r gwendidau roedd Lucy yn eu hwynebu.

15.13 Nid oedd gan unrhyw un asiantaeth ar ei phen ei hun ddigon o wybodaeth i asesu'r risg benodol yr oedd David yn ei achosi. Pe bai adroddiadau wedi dod yn anhysbys neu gan gymdogion neu drydydd partïon, efallai y byddai'r rhain wedi helpu llunio dealltwriaeth o'r sefyllfa a'r risg. Roedd datgeliadau gan y plant yn yr ysgol yn sôn am broblemau o fewn y cartref ac ni fu'r gweithdrefnau diogelu o gymorth i ddod â phopeth ynghyd i greu darlun llawn.

15.14 Mae cam-drin domestig corfforol yn rhywbeth diamwys, byw a diriaethol. Yn yr achos trychinebus hwn, nid oedd unrhyw **asiantaeth** a fu'n rhan o'r adolygiad yn ymwybodol o unrhyw gam-drin corfforol cyn llofruddiaeth Lucy. Mae'n amlwg bellach y cafodd Lucy ei cham-drin yn rhywiol ac yn gorfforol ar ffurf cael ei threisio. Ni roddwyd gwybod i unrhyw un mewn unrhyw asiantaeth am y treisio hyn. Nid yw'n amlwg gan unrhyw un o'r tystion a oedd Lucy yn sylweddoli mai treisio oedd hyn pan oedd yn disgrifio'r achosion.

15.15 Yn yr achos hwn, ni wnaeth Lucy, nac unrhyw aelod o'i theulu na'i chylch helaeth o ffrindiau, adnabod y dangosyddion neu'r ffactorau risg hyn a ddisgrifir bellach yn ôl-weithredol. Ni chafodd y risgiau hyn eu datgelu i, na'u hadnabod gan unrhyw un asiantaeth. Gan na wnaed unrhyw ddatgeliadau, ni allai gweithwyr proffesiynol fod wedi arfer eu chwilfrydedd proffesiynol na chynnig cymorth, cyngor ac arweiniad. Mae'n annhebygol y gallai asiantaeth fod wedi ymyrryd.

15.16 Nid yw cam-drin domestig ar ffurf ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn amlwg bob amser. Mae'n fwy cynnil, ond mae yna amryw o bethau'n awgrymu, fel y sonnir uchod, bod Lucy yn agored i niwed. Roedd yno arwyddion ac awgrymiadau (cliwiau) bod David yn beryglus. Dangosodd David gryn genfigen; roedd yn rheoli Lucy ond eto roedd diffyg hyder ganddo ynglŷn â'r berthynas. Gan ystyried Llinell Amser Lladdiadau Monckton Smith, yn anffodus roedd pob cam yn berthnasol i Lucy a David.

15.17 Nid oedd Lucy yn ei hystyried ei hun yn ddioddefwr pan oedd yn sôn am ei pherthynas â David gyda'i theulu a'i ffrindiau. Nid oedd yn gweld nac yn cydnabod fod David yn beryglus. Roedd y ffordd y bu'n byw â David wedi dod yn 'norm' iddi. Ef oedd ei chymar cyntaf fel oedolyn, ac felly roedd yr ymddygiad meddiannol a chenfigennus yn rhywbeth roedd hi wedi'i brofi gydol y berthynas a barodd am ddeng mlynedd. Ar y noson y llofruddiwyd Lucy, er ei bod yn pryderu y gallai David adael ei waith, dywedodd wrth ei ffrindiau ei bod hi'n teimlo'n ddiogel, gan na chredai y byddai'n gwneud unrhyw beth tra bod y plant yn bresennol. Fe wnaeth yr ymdeimlad camarweiniol hwn o ddiogelwch ei hatal rhag gweld ei bod mewn perygl, ar ddiwedd perthynas nad oedd David eisiau iddi ddod i ben.

15.18 Y peth pwysicaf a ddaw i'r amlwg yn yr adolygiad hwn yw y gellid bod wedi gwneud llawer iawn mwy i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at ddwysau risg a pherygl (rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru'n gweithio arno adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn). Nes bod y cyhoedd yn gweld a chydnabod y perygl, y drychineb yw y bydd mwy o ferched fel Lucy'n marw.

## Adran 16 - Gwersi a Ddysgwyd

Mae pob asiantaeth wedi dysgu gwersi. Tynnwyd sylw at amryw o 'Arferion da' yn yr adolygiad hwn hefyd.

### 16.1 Heddlu Gogledd Cymru

16.1.1 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ymroi i ddileu Trais yn erbyn Merched a Genethod. Eu perwyl yw sicrhau mai gogledd Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn y DU i weithio, byw ac ymweld ag ef. O ganlyniad, maent wedi cynhyrchu llyfryn o'r enw 'TRAIS YN ERBYN MERCHED A GENETHOD (VAWG) Beth ydy VAWG?' Mae'r cynnwys yn archwilio unrhyw drais ar sail rhywedd sydd wedi'i anelu at ferch oherwydd ei bod yn ferch, neu drais sy'n cael ei ddioddef yn anghymesur gan ferched.

16.1.2 Mae gwybodaeth ychwanegol yn nodi bod y rhan fwyaf o VAWG yn cael ei gyflawni gan ddynion yn erbyn merched a genethod (er y gall dynion hefyd brofi trais neu gamdriniaeth). Mae VAWG yn cynnwys unrhyw drosedd sy'n effeithio merched a genethod yn anghymesur. Y troseddau VAWG sydd fwyaf tebygol o fod yn fynych ynghyd â bod yn gysylltiedig â'r economi nos yw troseddau rhywiol gan gynnwys achosion o 'sbeicio', 'hwtian' gan achosi aflonyddwch, braw a gofid yn groes i Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 ac ymosod. Mae VAWG yn dod â 11 maes o drais ar sail rhywedd at ei gilydd: 1. Trais a Cham-Drin Domestig 2. Trais Rhywiol 3. Masnachu Pobl 4. Puteindra 5. Camfanteisio Rhywiol 6. Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 7. Yr hyn a elwir yn Drais ar sail 'Anrhydedd' 8. Cam-drin yn Ymwneud â Gwaddol 9. Stelcio ac Aflonyddu 10. Uwchsbecian 11. Pornograffi Dial.

16.1.3 **Ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru (yn fewnol)**

- Mae pob swyddog yn cael hyfforddiant ar Gam-drin Domestig fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol.
- Mae pob swyddog wedyn yn cael hyfforddiant *DA Matters* gan *SafeLives.*
- Mae'r adran gyfathrebu gorfforaethol fewnol yn rhannu manylion ymgyrchoedd CD fel ymgyrch y Rhuban Gwyn drwy fewnrwyd yr heddlu.
- Mae gan yr Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn (PVPU) safle SharePoint ar y fewnrwyd sy'n cynnwys deunyddiau i helpu swyddogion ganfod ac ymchwilio i droseddau cam-drin domestig, yn ogystal â nodi'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr.
- Mae PVPU yn rhannu bwletinau rheolaidd i dynnu sylw at achosion cadarnhaol er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd gyda swyddogion eraill yr heddlu.
- Mae PVPU hefyd yn creu fideos hyfforddi byr sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o bynciau a gysylltir â chamdriniaeth a bod yn agored i niwed, ac maent wedi sôn yn flaenorol am droseddau CD a rhai cysylltiedig, fel Stelcio.
- Pan fo newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth yn effeithio ar ymchwiliadau Cam-drin Domestig, caiff y rhain eu rhannu â phob swyddog drwy gyfres o fwletinau.

16.1.4 **Ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru (yn allanol)**

- Mae Heddlu Gogledd Cymru yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth berthnasol â'r cyhoedd am roi gwybod am CD, ynghyd â'r cymorth sydd

ar gael. Mae hyn yn aml yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd cenedlaethol fel Wythnos Ymwybyddiaeth o Stelcio, Diwrnod y Rhuban Gwyn ac ati.

- Trefnodd y PVPU yr ymgyrch “Torri’r Distawrwydd”. Digwyddiad ymgysylltu oedd hwn gyda salonau gwallt a harddwch ledled gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig, er mwyn ceisio cael mwy o bobl i roi gwybod am bryderon. Cychwynnwyd yr ymgyrch yn dilyn ALID yn ardal Norwich. Cafodd yr ymgyrch ragor o gyllid er mwyn gallu ehangu’r rhaglen drwy Gymru gyfan.
- Rhoddwyd cyflwyniadau ar Gam-drin Domestig i berchnogion Safleoedd Carfanau yn ardal Gwynedd. Gwnaed hyn o ganlyniad i’r mewnlifiad o dwristiaid i Barciau Carafanau yn ystod y tymor prysur, sy’n aml yn arwain at gynnydd cysylltiedig mewn achosion o Gam-drin Domestig yn yr ardal.

16.2 **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST**)

- Mae WAST wedi ymrwymo i gefnogi pobl sy’n dioddef problemau Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth. Mae ein gwasanaeth yn cynnig fframwaith sy’n cefnogi gofal a chamau gweithredu priodol ar gyfer dioddefwyr a’u teuluoedd. Yn sail i hyn mae polisïau a gweithdrefnau’r sefydliad, a’i hyfforddiant ar gyfer staff sy’n cyd-fynd â Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol VAWDASV. Gall dioddefwyr hefyd gael gafael ar wybodaeth eu hunain drwy wefan WAST, a gallant gael cymorth drwy ffonio gwasanaeth 111 y GIG, drwy wneud ymholiad ar-lein neu wyneb yn wyneb os bydd angen i’r aelodau staff fynd i’w gweld neu eu trin.

16.3 **Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint yng Nghyngor Sir y Fflint**

- Ers 2019, mae cwblhau’r modiwl e-Ddysgu Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) wedi bod yn ofyniad gorfodol i bob un o weithwyr Cyngor Sir y Fflint, gan gynnwys aelodau staff ysgolion (penaethiaid, athrawon, cymorthyddion dysgu, glanhawyr a gofalwyr).
- Cyflwynir y modiwl ar blatfform ar y we a chaiff pwy sy’n ei gwblhau ei fonitro. Mewn ysgolion, mae pob unigolyn diogelu dynodedig (UDD) wedi cael cymorth i ddilyn hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Grŵp 2, yn yr un modd â rheolwyr yn y portffolio Addysg ac Ieuenctid.
- Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd wedi cael achrediad ymgyrch cenedlaethol y Rhuban Gwyn, sef elusen flaenllaw’r DU sy’n ymgysylltu â dynion a bechgyn i ddod â thrais yn erbyn merched a genethod i ben. Ar 25 Tachwedd bob blwyddyn, sef Diwrnod y Rhuban Gwyn, bydd y Cyngor yn cynnal ymgyrch i hyrwyddo’r Rhuban Gwyn yn Sir y Fflint.
- Mae’r Cyngor hefyd yn hyrwyddo llinell gymorth Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru drwy’r cyfryngau cymdeithasol. Mae hon yn llinell gymorth rhad ac am ddim sy’n cynnig cymorth a chyngor i bobl sydd wedi dioddef Cam-drin Domestig neu Drais Rhywiol.

### 16.4 BIPBC

- Protocolau – Gweithdrefn VAWDASV y Gweithle a Gweithdrefn Defnyddiwr Gwasanaeth VAWDASV (manwl iawn mewn perthynas ag Ymholiadau Cyffredinol ar gyfer Cam-drin Domestig (REDA), Gwneud Atgyfeiriad Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), Rhannu Gwybodaeth/Cydsyniad, Asiantaethau Cymorth, Gwybodaeth am Fyw Heb Ofn ac ati.
- Strwythur gyda Diogelu Corfforaethol – mae delio gyda CD yn rhan o Swydd-ddisgrifiad pob aelod staff, gan gynnwys swydd 15 awr yn canolbwyntio ar VAWDASV Strategol a chynorthwywyr Arweinwyr Diogelu Bydwragedd.
- Mae hyfforddiant VAWDASV yn orfodol i bob aelod staff BIPBC – mae'n cael ei gyflwyno ar blatfform digidol ar hyn o bryd. Cyflwynir G1, 2 a 3 i'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Caiff REDA eu cynnal bob blwyddyn o fewn Adain y Merched, gyda lefel dda o gydymffurfiaeth.
- Mae REDA yn cael eu cyflwyno mewn meysydd risg uchel eraill, er enghraifft, Iechyd Meddwl/Achosion Brys.
- Grwpiau – mae cynrychiolwyr y panel yn aelodau o grwpiau Cenedlaethol, Rhanbarthol a mewnol mewn perthynas â VAWDASV.
- Mae yna 3 Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig (IDVA) ym mhob un o'r ysbytai acíwt ar hyn o bryd hyd at 2025. Maent yn cynnig cymorth a gwybodaeth i ddioddefwyr CD risg uchel.
- Mae prosiect IRIS wedi cael ei gynnal fel peilot yng Nghlwstwr Gofal Sylfaenol Meddygon Teulu De Sir Ddinbych. Nid yw hwn yn cael ei gynnig yn Sir y Fflint ar hyn o bryd.
- Mae Diogelu Corfforaethol yn rhan weithredol o bob ALID ar draws gogledd Cymru.
- Mae BIPBC yn cymryd rhan yn Niwrnod y Rhuban Gwyn ac ymgyrchoedd eraill i godi ymwybyddiaeth.
- Mae staff BIPBC yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd MARAC ac mae eu presenoldeb yn cael ei fonitro.

### 16.5 Y Tîm Trais yn erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol

- Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ymgysylltu cymdeithasol a deall rheolaeth drwy orfodaeth, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar ddatblygu ymgyrch atal ac ymyrraeth gynnar wedi'i anelu at ddynion ifanc rhwng 18 a 34 oed. Bydd hon yn amlygu ymddygiad cadarnhaol, yn defnyddio modelau cymheiriaid a gwrywod adnabyddadwy, yn tynnu sylw at fanteision perthnasoedd iach ac yn amlygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamau cynnar ymddygiad VAWDASV.

- Bydd yr Ymgyrch yn codi ymwybyddiaeth o ymddygiad cynnar a allai arwain at drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol; yn codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach, gan roi'r grym iddynt wneud dewisiadau personol cadarnhaol; yn cynyddu'r ffocws ar ddwyn y bobl hynny sy'n cam-drin i gyfrif a helpu'r rheiny a allai fod yn ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad a pheidio â throseddu.

- Bydd yn edrych ar rai o'r enghreifftiau clasurol o ymddygiad cynnar sy'n arwain at drais corfforol, a fydd yn cynnwys ymddygiad rheolaethol, ymysg eraill. Bwriedir lansio'r Ymgyrch ganol mis Gorffennaf 2023.

- Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydnabod manteision posib 'hyfforddiant ar sut i ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol' ac wedi dyfarnu contract i gyflwyno menter beilot i hyfforddi unigolion ar sut i ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol.

- Bydd y fenter hon yn cynnwys hyfforddiant i hyrwyddo rhaglen ymyrraeth wybodus a chymdeithasol ar sut i ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r ymgyrchoedd Cyfathrebu VAWDASV sefydledig cyfredol. Y bwriad yw creu newidiadau parhaol go iawn yn agweddau'r gymdeithas tuag at VAWDASV, a chynnig adnoddau ac arbenigedd i bobl ymyrryd yn ddiogel. Bydd y fenter beilot hon yn ehangu cwmpas eu gwaith i'r cyhoedd, a hon fydd y fenter gyntaf yng Nghymru i gyrraedd y gynulleidfa darged hon ar y raddfa arfaethedig.

- Bydd y fenter beilot yn rhedeg tan fis Mawrth 2026. Mae'r model cyflwyno'n rhagweld y bydd hyd at 400 o bobl y flwyddyn yn cael hyfforddiant - tua 1200 i gyd. Bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal, a fydd yn cynnig argymhellion.

**Adran 17 – Argymhellion**

**<u>Er nad yw'n argymhelliad penodol, fel y trafodwyd ac y cytunwyd gyda'r panel, gwneir yr arsylwadau canlynol yn yr achos hwn:</u>**

17.1 Bydd yr holl asiantaethau'n adolygu hyfforddiant staff er mwyn eu haddysgu ynghylch y ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol.

17.2 Bydd y prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr holl asiantaethau yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y rhennir gwybodaeth berthnasol ynglŷn ag ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol ymysg gweithwyr proffesiynol.

**<u>Dyma'r unig argymhelliad a wneir yn yr achos hwn:</u>**

**Bod yr holl bartneriaid yn hyrwyddo ymgyrchoedd cyfathrebu Llywodraeth Cymru (fel y'u disgrifir uchod) i godi ymwybyddiaeth gymunedol, gan ganolbwyntio ar ddatgeliadau anhysbys neu gan drydydd partïon ynglŷn â cham-drin domestig ac ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, gan gynnwys achosion o Dreisio mewn perthnasoedd.**

**Atodiad 1 - Cylch Gorchwyl ac Adolygiadau Rheoli Unigol (ARhU)**

**1. Cyflwyniad**

Comisiynir yr Adolygiad Lladdiad Domestig hwn gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint mewn ymateb i farwolaeth Lucy **ar 26 Mawrth, 2022.**

Comisiynwyd yr ALID gan fod y farwolaeth yn bodloni'r meini prawf a ddiffinnir yn y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae hwn yn ofyniad statudol dan Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.

Dan adran 9(3) Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr (2004), mae'r ddeddf yn nodi'r canlynol:

Mae adolygiad lladdiad domestig yn golygu adolygiad o'r amgylchiadau lle mae **marwolaeth unigolyn 16 oed neu hŷn wedi**, neu'n ymddangos fel pe bai wedi, **digwydd o ganlyniad i drais**, camdriniaeth neu esgeulustod **gan** –

(a) **unigolyn** roedden nhw'n perthyn iddynt neu **roedden nhw mewn, neu wedi bod mewn, perthynas bersonol agos gyda nhw**, neu

(b) **aelod o'r un aelwyd â nhw eu hunain**,

a gynhelir gyda'r bwriad o nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth.

**2. Cadeirydd ac Aelodaeth -**

Penodwyd Theresa Breen, Adolygydd Lladdiadau Domestig Annibynnol a'r Awdur, yn Gadeirydd y panel adolygu.

Enwebwyd y swyddogion canlynol i fod yn rhan o'r panel hefyd gan eu sefydliadau:

Diogelwch Cymunedol CSFf: Peter Shakespeare Peter.Shakespeare@flintshire.gov.uk
Diogelwch Cymunedol CSFf: Richard Powell richard.powell@flintshire.gov.uk
Diogelwch Cymunedol CSFf: Sian Jones Sian-Jones@flintshire.gov.uk
Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion) CSFf: Jo Taylor jo.taylor@flintshire.gov.uk
Addysg CSFf: Claire Homard Claire.Homard@Flintshire.gov.uk
Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant) CSFf: Peter Robson peter.robson@flintshire.gov.uk
Adran Gyfreithiol CSFf: Annemarie McNally annemarie.Mcnally@flintshire.nwalescls.com
Heddlu Gogledd Cymru: Rob Mahoney Rob.Mahoney@northwales.police.uk
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru: Tim Owen Tim.Owen@northwalesfire.gov.wales
Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru: Lowri Owen LowriAngharad.Owen@justice.gov.uk
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Chris Weaver CHRIS.WEAVER@wales.nhs.uk
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: Christine Hinton Christine.Hinton@wales.nhs.uk

**3. Diben y Panel Adolygu Lladdiad Domestig (Egwyddorion Gweithredu)**

- Nod yr adolygiad hwn yw canfod a dysgu gwersi yn ogystal â nodi arferion da er mwyn i wasanaethau diogelu'r dyfodol wella eu systemau a'u harferion i sicrhau bod dioddefwyr

cam-drin domestig posib a gwirioneddol yn fwy diogel (fel y ddiffiniwyd gan y Llywodraeth yn 2015 – gweler isod).
- Nid rhoi bai ar unigolion na sefydliadau yw'r bwriad, ond yn hytrach, defnyddio'r astudiaeth o'r achos hwn i gynnig cipolwg ar y system.
- Bydd gwerthusiad fforensig heb feirniadaeth o'r system yn ein helpu i ddeall beth ddigwyddodd, y cyd-destun a'r ffactorau cyfrannol, a pha wersi y gellir eu dysgu.
- Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn annibynnol, yn wrthrychol, yn cynnig dealltwriaeth ac wedi'u seilio ar dystiolaeth, ac ni fyddant yn cael eu dylanwadu gan 'ôl-ragfarn' na 'rhagfarn ar sail canlyniad'.
- Bydd trugaredd, caredigrwydd ac empathi'n llywio'r adolygiad, a bydd llais **Lucy** wrth wraidd y broses.
- Sicrhau y cynhelir yr adolygiad yn unol ag arferion gorau, gyda dadansoddiad a chasgliadau effeithiol o'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r achos.
- Canfod pa wersi y gellir eu dysgu o'r achos am y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio'n unigol ac yn cydweithio i ddiogelu a chefnogi dioddefwyr trais domestig, gan gynnwys eu plant sy'n ddibynyddion.
- Nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny o fewn a rhwng asiantaethau, sut y bwriedir gweithredu arnynt ac o fewn pa derfynau amser, a beth y mae disgwyl ei weld yn newid o ganlyniad.
- Rhoi'r gwersi hynny ar waith yn ymatebion y gwasanaethau, gan gynnwys gwneud newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau fel y bo'n briodol.
- Atal lladdiadau domestig a gwella ymateb gwasanaethau i bob dioddefwr trais domestig a'u plant drwy weithio'n well o fewn, a rhwng asiantaethau.
- Nodi beth sydd angen ei newid er mwyn lleihau'r risg o drychinebau o'r fath yn y dyfodol, i atal lladdiadau trais domestig ac i wella ymatebion gwasanaethau i bob dioddefwr trais domestig a'u plant, drwy weithio'n well o fewn a rhwng asiantaethau.
- Bydd yn ystyried y nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
- Ymdrinnir â'r holl ddeunyddiau o fewn lefel 'Swyddogol - Sensitif' Dosbarthiad Diogelwch y Llywodraeth.
- Bydd cofnodion cyfarfodydd y panel yn cael eu rhannu â'r aelodau o fewn 10 diwrnod gwaith i'r cyfarfod gwreiddiol.
- Bydd dogfennau y mae aelodau'r panel eu hangen cyn unrhyw gyfarfod yn cael eu rhannu o leiaf bythefnos cyn dyddiad y cyfarfod.
- Bydd aelodau'r panel yn ymrwymo i gwblhau unrhyw gamau gweithredu yn brydlon, ac o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu ym mhob achos. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau a gymerwyd yn cael ei hanfon ymlaen i weinyddwr y panel a'r Cadeirydd.

### 4. Llinell Amser a Chwmpas

- Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys y cyfnod rhwng X ac X. Fodd bynnag, os ystyrir ei bod yn berthnasol ac yn gymwys gwneud hynny, gallai'r Panel hefyd gynnwys unrhyw gyfnodau eraill, os yw'r Cadeirydd yn cytuno.

### 5. Amlder y Cyfarfodydd

- Gelwir cyfarfodydd yn ôl cyfarwyddyd y Cadeirydd. Bydd gweinyddiaeth a chydlyniad yr Adolygiad yn cael ei gynnal gan Gyngor Sir y Fflint gyda *Sancus Solutions*.

**Cylch Gorchwyl yr Adolygiad:**

1. Adnabod y dull gorau o gael a dadansoddi gwybodaeth berthnasol, a phennu am ba gyfnod cyn y lladdiad i wneud hynny, er mwyn dod i ddeall y materion pwysicaf i fynd i'r afael â nhw yn yr adolygiad hwn, a sicrhau ein bod yn deall y gwersi i'w dysgu yn sgil y lladdiad penodol hwn a'r amgylchiadau, ac y caiff newidiadau systemig eu rhoi ar waith. Wrth wirio'r cofnodion, byddwn yn nodi unrhyw ddigwyddiadau neu unigolion arwyddocaol eraill a allai ddarparu gwybodaeth er mwyn bod o fudd i'r adolygiad.

2. Adnabod yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol a ddylai fod yn rhan o'r Panel hwn a'r rhai hynny a ddylai gyflwyno cronolegau ac Adolygiadau Rheoli Unigol (ARhU), a phennu amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiad.

3. Deall gofynion yr ymchwiliad troseddol, unrhyw ymchwiliad i gamymddwyn a phrosesau'r Cwêst, a chydymffurfio â hwy, ac adnabod unrhyw broblemau o ran datgelu a sut i'w datrys, gan gynnwys rhai sy'n deillio o gyhoeddi adroddiad gan y Panel hwn.

4. Adnabod unrhyw ystyriaethau perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n deillio o'r achos hwn ac os oes rhai, pa gyngor neu gymorth proffesiynol a allai fod ei angen.

5. Canfod a fu'r dioddefwr neu'r cyflawnwr yn destun Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) ac a fu'r cyflawnwr yn destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) neu Raglen Cyflawnwr Trais Domestig ac os felly, canfod telerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â datgelu cofnodion cyfarfodydd.

6. Penderfynu a yw'r achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Achos Oedolion yn unol â darpariaethau Adran 44 Deddf Gofal 2014 ac os felly, canfod sut orau i reoli hynny yn yr adolygiad hwn a p'un a oedd y dioddefwr neu'r cyflawnwr yn 'oedolyn ag anghenion gofal a chymorth'.

7. Canfod a hoffai aelodau teulu, ffrindiau neu gydweithwyr gymryd rhan yn yr adolygiad. Os felly, canfod a oeddent yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad camdriniol tuag at y dioddefwr cyn y lladdiad (unrhyw ddatgeliad; dim terfyn amser). Canfod a oedd aelodau'r teulu'n ymwybodol o unrhyw gamdriniaeth ac unrhyw rwystrau a wynebwyd rhag rhoi gwybod am gamdriniaeth, neu unrhyw arferion gorau a hwylusodd hynny.

8. Adnabod sut y dylai'r adolygiad ystyried y gwersi a ddysgwyd eisoes yn Sir y Fflint a gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill.

9. Canfod sut mae pobl yn Sir y Fflint yn cael gafael ar gyngor am gam-drin domestig, p'un a ydynt yn dioddef camdriniaeth neu'n gwybod ei fod yn digwydd i ffrind, perthynas neu gydweithiwr [cynhelir ymchwil ynglŷn â hynny].

10. Adolygu'r cylch gorchwyl hwn yn barhaus er mwyn gallu manteisio ar unrhyw ffynhonnell wybodaeth nad yw'n hysbys eto, neu gysylltu ag unigolion neu sefydliadau perthnasol.

**Ystyriaethau ar gyfer y Panel**

1. A allai gwella unrhyw un o'r pethau hyn fod wedi arwain at wahanol ganlyniad i Lucy, gan ystyried:
    a) Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau ynglŷn â diogelu oedolion a phlant
    b) Cyfathrebu o fewn gwasanaethau
    c) Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd i'r cyhoedd a gwasanaethau nad ydynt yn rhai arbenigol ynglŷn â natur a pha mor gyffredin yw cam-drin domestig, a'r gwasanaethau arbenigol sydd ar gael yn lleol

2. A yw'r gwaith y mae gwasanaethau wedi'i wneud yn yr achos hwn yn gyson â phob sefydliad o safbwynt:
    a) Safonau proffesiynol
    b) Polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau cam-drin domestig.

3. Ymateb yr asiantaethau perthnasol i unrhyw atgyfeiriadau mewn perthynas â **Lucy** a'i phartner, **David**. Byddwn yn ceisio deall pa benderfyniadau a wnaed a pha gamau gweithredu a gymerwyd neu na chymerwyd, a chanfod y rhesymau am hynny. Yn benodol, byddwn yn ymchwilio i'r meysydd canlynol:
    a) Adnabod cyfleoedd allweddol ar gyfer asesu, penderfynu ac ymyrryd yn effeithiol yn yr achos hwn, o adeg unrhyw gyswllt cyntaf â Lucy ymlaen.
    b) P'un a oedd unrhyw gamau a gymerwyd yn gyson â'r asesiadau a'r penderfyniadau a wnaed, ac a oedd yr ymyriadau hynny'n amserol ac yn effeithiol.
    c) A gafodd gwasanaethau priodol eu cynnig/darparu a/neu a wnaed ymholiadau perthnasol yn sgil unrhyw asesiadau a gynhaliwyd.
    d) Ansawdd unrhyw asesiadau risg a gynhaliwyd gan bob asiantaeth mewn perthynas â Lucy. P'un a oedd trothwyon y sefydliadau ar gyfer ymyrryd wedi'u pennu'n briodol a/neu wedi'u dilyn yn gywir, yn yr achos hwn.

4. A oedd arferion yr holl asiantaethau'n ystyriol o hunaniaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol yr unigolion dan sylw, ac a gafodd unrhyw anghenion arbenigol a oedd ganddynt eu harchwilio, eu rhannu'n briodol a'u cofnodi.

5. A gafodd materion eu huwchgyfeirio at uwch-reolwyr neu sefydliadau a gweithwyr proffesiynol eraill, os oedd hynny'n briodol, a'u cwblhau'n brydlon.

6. A nodwyd unrhyw ofynion hyfforddi neu godi ymwybyddiaeth i sicrhau gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a/neu wasanaethau cam-drin domestig.

7. Sut y dylid rheoli'r wybodaeth a'r adroddiad sy'n deillio o hyn gydag aelodau teulu a ffrindiau cyn ei gyhoeddi, a gyda'r cyfryngau ar ôl ei gyhoeddi.

**Diffiniad o Gam-drin Domestig**

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n amlygu ymddygiad rheolaethol, gorfodaethol neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng unigolion sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd,

neu sydd wedi bod, yn bartneriaid personol agos neu sy'n aelodau teulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r mathau canlynol o gamdriniaeth:

- seicolegol
- corfforol
- rhywiol
- ariannol
- emosiynol

Ymddygiad rheolaethol: amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud i unigolyn fod yn ddarostyngedig a/neu'n ddibynnol drwy ei ynysu oddi wrth ffynonellau cefnogaeth, drwy gamfanteisio ar ei adnoddau a'i alluoedd er mantais bersonol, drwy ei amddifadu o'r adnoddau y mae eu hangen i fod yn annibynnol, i wrthwynebu'r ymosodwr ac i ddianc, a drwy reoli ei ymddygiad o ddydd i ddydd.

Ymddygiad gorfodaethol: gweithred barhaus neu batrwm o weithredoedd sy'n cynnwys ymosod, bygwth, cywilyddio a brawychu neu fathau eraill o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu godi ofn ar eu dioddefwr.

Bydd y meysydd canlynol yn cael sylw yn yr Adolygiadau Rheoli Unigol a'r Adroddiad Trosolwg:

- A oedd aelodau'r teulu, ffrindiau neu gydweithwyr yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad camdriniol gan y cyflawnwr honedig tuag at y dioddefwr, cyn y lladdiad.
- A wynebodd y dioddefwr neu ei theulu/ei ffrindiau/ei chydweithwyr unrhyw rwystrau wrth geisio rhoi gwybod am unrhyw gamdriniaeth yn Sir y Fflint neu tu hwnt, gan gynnwys a oedd hi'n ymwybodol o sut i roi gwybod am gam-drin domestig pe bai'n dymuno gwneud hynny.
- A fethwyd unrhyw gyfleoedd i wneud 'ymholiadau arferol' gan weithwyr proffesiynol am unrhyw gam-drin domestig tuag at y dioddefwr.
- A fethwyd cyfleoedd i asiantaethau ymyrryd mewn perthynas â cham-drin domestig o ran y dioddefwr neu'r cyflawnwr honedig. Gellir amlygu arferion da hefyd ar gyfer ARhU.
- Dylai'r adolygiad nodi unrhyw ofynion hyfforddi neu godi ymwybyddiaeth sydd eu hangen i sicrhau mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o brosesau a/neu wasanaethau cam-drin domestig.
- Bydd yr adolygiad hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymddangos yn berthnasol i'r dioddefwr a/neu'r cyflawnwr honedig, e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**Atodiad 2 - Rhannu Gwybodaeth**

Dim ond gydag Aelodau'r Panel y rhannwyd y dogfennau i gychwyn. Rhannwyd yr adroddiad drafft er mwyn i'r Panel gael gwirio ei gywirdeb ffeithiol a'i brawf-ddarllen. Bydd y PDC yn rhannu'r adolygiad ymhellach gyda phob aelod o'r panel, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Tîm Gweithredol.

Mae rhestr ar ddiwedd yr Adolygiad o'r rhai y bwriedir anfon copi o'r adroddiad cytûn terfynol iddynt, ar ôl i'r PDC a Phanel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref ei gymeradwyo.

**Atodiad 3 – COVID**

Llofruddiwyd Lucy ar **26.08.2021.** Byddai cyfnod COVID, gan gynnwys y cyfnod clo, wedi bod yn berthnasol i'w gallu i ryngweithio gyda ffrindiau, teulu ac asiantaethau o bosib, yn enwedig yn ystod 2021.

I grynhoi, ar ddechrau 2020, daeth adroddiadau newyddion i'r amlwg am feirws newydd o ardal Wuhan, Tsieina. Ar 24 Ionawr, 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y dudalen ganllawiau coronafeirws gyntaf ar GOV.UK. Ychydig wythnosau wedyn, cofnododd y DU ei achos cyntaf o coronafeirws. Datganodd Sefydliad Iechyd y Byd bod yr achosion o goronafeirws newydd yn bandemig byd-eang ar 11.03.2020.

Cyfnod clo cenedlaethol cyntaf (mis Mawrth i fis Mehefin 2020): Ar 23.03.2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf mewn anerchiad i'r wlad. Effaith hyn oedd bod Cymru a Lloegr mewn cyfnod clo cenedlaethol rhwng diwedd Mawrth a Mehefin 2020. Roedd pob busnes "dianghenraid" ar y stryd fawr ar gau, a gorchmynnwyd pawb i aros gartref, gyda chaniatâd i adael am resymau hanfodol yn unig, fel mynd i brynu bwyd neu am resymau meddygol. O fis Mai 2020 ymlaen, llaciwyd y rheolau'n raddol a chaniatawyd i bobl adael eu cartrefi er dibenion hamdden awyr agored (y tu hwnt i ymarfer corff) o 13.05.2020 ymlaen. Ar 01.06.2020, disodlwyd y cyfyngiad ar adael cartrefi gyda gofyniad i fod gartref dros nos, a chaniatawyd pobl i gyfarfod yn yr awyr agored mewn grwpiau o hyd at chwech o bobl.

Cyfyngiadau clo lleiaf (mis Gorffennaf i fis Medi 2020). Codwyd y rhan fwyaf o gyfyngiadau'r cyfnod clo ar 04.07.2020. Caniatawyd i'r rhan fwyaf o fusnesau lletygarwch ailagor. Cyhoeddwyd canllawiau iechyd a diogelwch newydd ar weithredu busnesau "yn ddiogel o ran Covid". Caniatawyd i hyd at 30 o bobl ymgynnull yn gyfreithlon, er bod y Llywodraeth yn dal i argymell pobl i osgoi dod at ei gilydd mewn grwpiau o fwy na 6.

Ailosod y cyfyngiadau (mis Medi i fis Hydref 2020). Ar 14.09.2020, tynhawyd y cyfyngiadau ar faint o bobl a oedd yn cael dod at ei gilydd yng Nghymru a Lloegr, ac roedd gwaharddiad cyfreithiol unwaith eto ar bobl rhag cyfarfod mwy na chwech o bobl yn gymdeithasol. Roedd y "rheol chwech" newydd yn berthnasol dan do ac yn yr awyr agored. Un diwrnod ar ddeg yn ddiweddarach, dywedwyd wrth y tafarndai, y bariau a'r bwytai bod rhaid iddynt gau rhwng 10pm a 6am.

Yn ystod y cyfnod hwn, gosodwyd amrywiaeth o gyfyngiadau lleol ar draws Cymru a Lloegr. Ar 14.10.2020, ad-drefnodd y Llywodraeth y cyfyngiadau lleol drwy gyflwyno "system dair haen". Yn gyntaf, roedd y rhan fwyaf o'r wlad yn dod o fewn yr haen gyntaf llai cyfyngedig, a oedd â chyfyngiadau tebyg i'r rheolau cenedlaethol blaenorol. Wrth i amser fynd heibio, rhoddwyd mwy o'r wlad o fewn y ddwy haen uchaf.

Ail gyfnod clo cenedlaethol (Tachwedd 2020). Ar 05.11.2020, ailgyflwynwyd y cyfyngiadau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr mewn ymateb i gynnydd mewn achosion yn y DU. Roedd y cyfnod clo cenedlaethol i fod i ddod i ben ar 26.11.2020, a'i ddisodli gyda chyfyngiadau lleol ("haenau") ar draws Cymru a Lloegr gyfan. Yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, roedd rhaid i fusnesau stryd fawr dianghenraid gau, a gwaharddwyd pobl rhag cyfarfod unrhyw un nad oeddent yn eu "swigen gefnogaeth' dan do. Gallai pobl adael eu cartrefi i gyfarfod un person arall nad oedd yn eu swigen gefnogaeth yn yr awyr agored.

Ailgyflwyno'r system haenau (Rhagfyr 2020). Ar 02.12.2020, ailgyflwynwyd y system haenau gydag addasiadau. Roedd rheolau haen pedwar yr un fath â'r rhai a orfodwyd yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol. Roedd y cyfyngiadau ar fusnesau lletygarwch yn fwy llym, a rhoddwyd y rhan fwyaf o leoliadau o fewn haenau dau a thri i gychwyn. Ar 19.12.2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai pedwerydd haen yn cael ei chyflwyno, yn dilyn pryderon am gynnydd yn nifer yr achosion o goronafeirws yn sgil amrywiolyn newydd (a fyddai'n cael ei alw'n amrywiolyn Alffa, a ganfuwyd gyntaf yn Kent). Roedd rheolau haen pedwar yr un fath â'r rhai a orfodwyd yn ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol. Ar 30.12.2020, ar ôl yr adolygiad cyntaf o'r haenau dan y system newydd, rhoddwyd tua 75% o'r wlad dan gyfyngiadau haen pedwar.

Y trydydd cyfnod clo cenedlaethol (mis Ionawr i fis Mawrth 2021). Yn dilyn pryderon nad oedd y system bedair haen yn rheoli lledaeniad yr amrywiolyn Alffa, ddydd Llun 04.01.2021 am 8pm, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r trydydd cyfnod clo cenedlaethol yn cychwyn ar 06.01.2021. Roedd rheolau'r trydydd cyfnod clo yn debycach i rai'r cyfnod clo cyntaf. Dywedwyd wrth bobl unwaith eto bod rhaid iddynt aros gartref. Fodd bynnag, gallai pobl greu swigod cefnogaeth o hyd (os oeddent yn gymwys) ac roedd rhai enghreifftiau o bobl yn dod ynghyd wedi'u heithrio o'r gwaharddiad ar ymgynnull (er enghraifft, caniatawyd dod ynghyd ar gyfer gwasanaethau crefyddol a rhai priodasau bychain).

Diwedd y cyfnod clo (mis Mawrth i fis Gorffennaf 2021). Ar 08.03.2021, cychwynnodd y DU ddod â'r cyfnod clo i ben yn raddol wrth i'r rhan fwyaf o bobl gael eu dos gyntaf o'r brechlyn coronafeirws. Yn lle dychwelyd at system haenau, dywedodd y Llywodraeth ei fod yn bwriadu codi'r cyfyngiadau ym mhob ardal ar yr un pryd, gan fod lefel yr haint yn debyg ar draws Cymru a Lloegr.

Pwynt i'w Nodi

Yn sgil Pandemig Coronafeirws 19, y Cyfnod Clo Cenedlaethol a'r gweithdrefnau diogelu, cynhaliwyd pob cyfarfod ar y we, drwy fideo gynadledda drwy'r Rhyngrwyd.

Roedd y rhan fwyaf o Aelodau'r Panel yn gweithio gartref yn ystod y cyfnod hwn ac yn ystod proses yr ALID, ac roedd arferion gweithio cyffredinol yn cael eu haddasu i fodloni canllawiau gweithio'n ddiogel.

Mae'n bwysig cydnabod bod y rhaglen frechu genedlaethol wedi cynyddu'r pwysau ar yr unigolion a oedd yn gweithio ym mhob asiantaeth, ond yn benodol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac ysgolion ac addysg, mewn ffordd na welwyd erioed o'r blaen.